

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

13/1990



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH 1989-90
OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE 1989-90

Llywydd/*President*: Mrs FRANCES MÔN JONES

Is-lywyddion/Vice-presidents:

Dr OSIAN ELLIS, Y Fonesig/*Lady* ENID PARRY,

Mrs G. MEGAN TIBBOTT,

Yr Athro/*Prof.* STEPHEN J. WILLIAMS

Dr MEREDYDD EVANS, Mrs STEPHEN J. WILLIAMS

Miss MALI EVANS, Mrs SIÂN LLOYD WILLIAMS

Mrs EUNICE BRYN WILLIAMS

Cadeirydd/*Chairperson*: SHÂN EMLYN

Is-gadeirydd/Vice-chairman: D. ROY SAER

Pwyllgor Gwaith/Executive Committee:

DANIEL HUWS MENNA WILLIAMS

PHYLLIS KINNEY MARY LLEWELFRYN DAVIES

HYWEL GRIFFITHS RHIANNON IFANS

E. WYN JAMES MYRA REES

DWYNWEN JONES MENNA THOMAS

DAFYDD IDRIS JOHN E. JONES

Ysgrifennydd Cyffredinol/General Secretary:

BUDDUG LLOYD ROBERTS,

Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth (0766) 522096

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth/Treasurer and Membership

Secretary:

RHIDIAN GRIFFITHS,

Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed.

Ffôn: Aberystwyth (0970) 828683

Swyddog Cyhoeddusrwydd/Publicity Officer:

MARIAN REES,

Dôl Einion, Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd.

Ffôn: Corris (065 473) 312

Cyd-olygyddion y Cylchgrawn/Editors of the Journal:

RHIDIAN GRIFFITHS a RHIANNON IFANS

Archwiliwr/Auditor: W. ISLWYN DAVIES

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

13/1990

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	3
Y "Canorion" a'r Casglu Cynnar	JOHN MORRIS 5
Atgofion am gasglwyr alawon gwerin Cymru ...	ENID PARRY 29
'Pwt ar frys' neu 'Ffarwél y Crythor'	BETHAN MILES .. 35
Cân Newydd Bardd y Gwagedd	HEFIN JONES 38
Baledwyr Aberdâr	DANIEL HUWS ... 46

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoint of the Editors or the Society.


Cysodi: Mei/Argraffu: Argraffdy Arfon
Cynllun clawr: D.I. Arwel Hughes

Llun clawr (trwy garedigrwydd Amgueddfa Werin Cymru)

Y Fari Lwyd yn Llangynwyd, Morgannwg, tuag 1908. Tynnwyd y llun gwreiddiol gan
Frederic Evans.

Cover photograph (by courtesy of the Welsh Folk Museum):

The Mari Lwyd at Llangynwyd, Glamorgan, around 1908. Original photograph taken by
Frederic Evans.



GOLYGYDDOL

Cawn yn y rhifyn hwn ddwy gyfres o atgofion gan un o'n His-lywyddion a chan un o'r casglwyr cynnar a fu wrthi yn y dyddiau arloesol ar ddechrau'r ganrif. Cawn yn ogystal astudiaethau byrion gan dri awdur arall. Dymuna'r Golygyddion wahodd cyfraniadau at rifynnau'r dyfodol a sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â chynnwys y cylchgrawn.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni traddodir gan Dr Meredydd Evans y gyntaf o ddarlithiau'r Fonesig Parry-Williams, a sefydlwyd ag arian a waddolwyd ganddi i'r Gymdeithas. Cyhoeddir y ddarlith ar wahân ac erfyniwn arnoch i gefnogi'r symudiad newydd hwn er cof am ein diweddar Lywydd.

Trist yw cofnodi i'r Gymdeithas golli y llynedd un o'i His-lywyddion, Mrs Ceinwen Williams, priod yr Athro Stephen J. Williams. Wrth dalu teyrnged iddi yng Ngregynog dywedodd Shân Emlyn ei bod hi a'i gŵr yn batrwm o "harddwch mewn henaint", a bydd ein hatgofion amdani'n felys. Cafodd oes hir o ganu fel unawdydd ac mewn corau, gan gynnwys Côr Mawr Ystalyfera ac Wythawd Cymreig y BBC. Danfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at yr Athro Stephen J. Williams, yntau erbyn hyn yn 94 oed a heb fod yn dda ei iechyd.

Gofid yn ogystal yw deall na chawn eto gwmni un o aelodau ffyddlonaf y Gymdeithas, W. Rees Howells, a fu farw rai misoedd yn ôl. Yr oedd hwn yn gyfaill rhadlon ac yn ŵr bonheddig y bu'n fraint cael ei adnabod.

EDITORIAL

This issue contains two sets of reminiscences, by one of our Vice-presidents and by one of the early folk-song collectors active in the movement in the early years of this century. In addition there are three short studies by other authors. The Editors invite contributions to future issues and comments and suggestions concerning the content of the journal.

At this year's National Eisteddfod Dr Meredydd Evans will give the first of the Lady Parry-Williams lectures, founded with money bequeathed by her to the Society. The lecture will be published separately and it is hoped that members will support this new venture in memory of our late President.

It is with sadness that we record the death last year of one of our Vice-presidents, Mrs Ceinwen Williams, wife of Professor Stephen J. Williams. We will cherish the memory of this gracious lady who enjoyed a long life of singing both as soloist and as a chorister in such choirs as the famous Ystalyfera Choir and the BBC West Wales Singers. We extend our sympathy to Professor Williams, now 94, who is himself not in good health.

We lament too the loss of one of our most faithful members, W. Rees Howells, who died a few months ago — a loyal friend and a gentleman, whom it was a privilege to know.

Y “CANORION” A’R CASGLU CYNNAR

John Morris (1887-1977)

(Traddodwyd y ddarlith hon i Gwrs Penwythnos y Gymdeithas yn Y Barri yn 1965. Fe'i hadysgrifiwyd gan D. Roy Saer o dâp a wnaethpwyd ar y pryd, Tâp Rhif 1458 yng nghasgliad Amgueddfa Werin Cymru. Mae rhai bylchau yn yr adysgrifiad lle y mae'r recordiad gwreiddiol yn aneglur.)

Well, Mr Chairman, Ladies and Gentlemen:

I want to say a few words in English. I don't know English very well, I'm much more at home in my own language, but as there are one or two friends here who will not be able to follow my lecture this morning I should like to explain that I could not give this lecture in Welsh — in English: it would be impossible for me to do so. I have nothing against the English language, mind; I owe it so much. But somehow or other it doesn't lend itself to the creation of the atmosphere in which I found myself in those early days when we started collecting folk-songs. So you will understand. If our English friends, Mrs Cecil particularly, would like to have a summary of this, I can't write — I may be able to talk — I shall tell her in the summary in English, as well as I can, later in the day, what I've said this morning.*

Well, now, I've got two very capable backroom boys here. + I hope they will be careful to cut out what should be cut out.

Wel, rŵan! Faint sy, deudwch? Mae hi bron yn drigain mlynedd. Hogyn own i 'ramser honno. ('Dach chi 'nghlywed i fanna? Dowch yn nes dipyn bach, os nag ydach chi, achos dydw i ddim yn mynd — fydda i'n siarad yn hir, 'dach 'weld, ond dw i'm isio blino gormod). Sixty, ia, 1906 i seven, ymlaen 1910, dyna'r blynyddoedd pan oeddwn i'n hogyn yn y coleg, ddim yn cael hanner digon o fwyd, cael digon i gael baco! — ac yn edrych fel skeleton welsoch chi yn y llun 'na fanna rŵan. Ond roedden ni'n cael llawer iawn o hwyl.

A mi roedd 'no un gŵr yn y coleg, y Doctor Lloyd Williams. Darlithydd mewn Llysieuath oedd o, *Botany*, ond yr oedd o'n gerddor gwych iawn. A fo oedd yn gyfrifol am ganu y coleg. Y fo oedd arweinydd (y) gymdeithas gorawl. Y fo oedd yn rhoi darlithiau i rai ohonom ni oedd yn y *Day Training Department* y pryd hynny, ac yr oedd o'n dod i'n nabod ni, wrth gwrs. A dwi'n meddwl bod o wedi dod i fy nabod i am bod gen i ryw ddiddordeb hynod iawn mewn hen gerddi. A — oeddwn i'n ei neud

*Mrs Sarah Stafford Cecil, a fu'n darlithio yn ystod yr un Cwrs ar “American Folk-Songs”.

+Sef y sawl a oedd yn recordio'r sgwrs.

o ambell i dro. Dwi'n cofio neud o a Doctor Somerwell* yn braf, (wydd)och chi, mewn *exam*. Oedden ni i fod i sgrifennu *an original melody* ar y bwrdd du, a dw i'n cofio'n iawn oedd o — Doctor Somerwell oedd yn *external examiner* a mi rois i hen alaw yno, a dyma'r ddau yn sbio arni, a (dyma) nhw'n mynd yn bellach yn ôl ac yn sbio arni wedyn. "Hm! Hm!" (Dy)ma Somerwell yn dechrau mwmian hi. Finne deud dim, 'te. Rhyw hen frawd o Drawsffynydd oedd piau hi! Ond mi wnaeth y tro!

Wel, rŵan! Roedden ni'n canu mewn cyngherddau'r amser honno, cyngherddau yn perthyn i'r coleg, ac roedd Doctor Lloyd Williams wedi dod i deimlo bod ein caneuon ni yn bethau Seisnig i gyd. Oedd o'n gwybod *bod* ni'n medru canu pethau fel "Yr Eneth gadd ei gwrthod" a'r "Hogyn gyrru'r wedd" a'r "Hen Ddarbi" a'r rheina, ac yn cael hwyl efo nhw, ond yn y cyngherdda lle'r oedd bobol Bangor yn cael gwadd yno, Saesneg oedd y rhan fwy o'r caneuon. Doedd o ddim yn hapus iawn — mewn coleg oedd mor Gymreig ei ysbryd ac mor Gymraeg ei iaith. A dyma fo'n mynd at y Prifathro, Syr Harry Reichel, a dweud wrtho bod o'n meddwl y bydda yn well iddyn nhw ym Mangor gael tipyn mwy o Gymraeg yn y cyngherddau. Wel, dyn o'r Werddon oedd Syr Harry, fel gwyddoch chi, ond dyn â chalon fawr iawn gynno fo, a chalon gynnes iawn at Gymru a phethau Cymraeg. Dyma fo'n cytuno'n rhwydd i geisio ad-drefnu pethau fel bydda Lloyd Williams yn cael nifer ohonon ni i ganu pethau Cymraeg. Wedyn, dyma fo'n gofyn i rai ohonom ni ddod i'w gyfarfod o, nid i'r coleg, ond i'r Temperance oedd yn Stryd Fawr Bangor, heb fod ymhell o'r stesion. A mi es i yno y dydd o'r blaen. Odd 'no ryw weithwyr yn atgyweirio'r lle — ac es i yno i weld oedd o'n debyg i'r hen stafell oedd gynnon ni ers talwm, ac mi *roedd* o. Ond ryw — wythnos ddiwethaf mi es i yno, a wyddoch chi be' dy o heddiw? *Licensed betting shop!* Dyna i chi fesur dirywiad Cymru mewn trigain mlynedd.

Wel, yn y Wicklow Temperance, dyma ryw ddwsin neu ragor ohonon ni'n cyfarfod Lloyd Williams ac yn siarad: oedd o'n siarad am ei fwriad o gael mwy o Gymraeg i'r coleg a mi roedden ninnau'n gwrando, yn cytuno. A dyma fo'n rhoi dipyn o bethau i ni ganu — wel, wir, oedd 'no hwyl ar y canu i chi; oedd gynnon ni leisau reit dda amser honno — a wir, roedd 'no frwdfrydedd mawr. Wel, rŵan: lle roedden ni mynd i gael alawon? A dyma fo'n sôn *bod* o isio — *bod* 'na alawon yn bod, nad oedd pobol ddim yn gwybod dim amdanyn nhw; bod nhw'n bethau prin iawn, pethau anodd eu cael, ond basa fo'n hoffi petaen ni oedd yn dod o wahanol ardaloedd yng Nghymru yn mynd o gwmpas a cheisio'r

*Tebyg mai Syr Arthur Somerwell (1863-1937), a fu o 1901 hyd 1928 yn Arolygwr Cerdd i'r Bwrdd Addysg.

rhain. Wel, dyma ni, yn awyddus iawn, yn cytuno y byddan ni'n hel yr hen alawon 'ma ar ôl mynd i'n broydd ein hunain, yn adeg y gwyliau. Wel: canu a hwy! A ddeuda i chi beth arall: roedd Syr Harry Reichel yn talu am rent y Wicklow inni ac roedd o wedi gofalu bod yno biano inni; oedd o wedi rhentu honno hefyd. Wel, oedden ni'n cael amser difyr.

Ond rhoswch, rŵan! Dwi'n dechrau siarad, 'tydw! Mae gen i fan yma fagasîn Coleg Prifysgol Bangor am y flwyddyn 1907. Yn y fan yma mae'r awdl gafodd y gadair gan Syr John Morris-Jones y flwyddyn honno, gwaith y diweddar Robert Williams Parry, "Cantre'r Gwaelod". Mae hon yn y magasin, magasin Gŵyl Dewi ydy hon. Ond y peth oedd arna i isio cyfeirio ato fo oedd ysgrif sydd yn y fan yma o gyfarfod cynta Cymdeithas y Canorion, yn y Wicklow. A hogyn o Stiniog oedd yr ysgrifennydd, Morris Owen — ac mae o yn y llun yma hefyd dwi'n meddwl. Mi aeth yn athro Ffiseg i India ar ôl hynny. Welais i byth mo Morris; wn i'm ydi o yn yr India o hyd. Ond y fo sgwennodd gofnodion o'r cyfarfod cynta, cyfarfod o'r Canorion gynta yn y Wicklow. A mae yma beth diddorol arall yn fan yma. Fe gyhoeddwyd hon ar Gŵyl Dewi 1907, dwi'n meddwl, a mae yma hanes eisteddfod rhwng y colegau — gwahanol golegau yn cael, fel maen nhw o hyd, yn cael yr *Inter-Coll* Eisteddfod. Ac roedd yna gystadleuaeth yn 'r eisteddfod y flwyddyn yma, am y tro cynta erioed, sef cystadleuaeth canu alaw werin. A, mae'r enwau yma, pawb oedd yn ennill ar bob peth, a fe rannwyd y wobr i'r ddau oedd yn ennill ar yr alaw werin, ac un o'r enillwyr oedd W.E. Jones, Llywydd presennol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. W.E. oedd yn cael un o'r ddau, a finnau oedd y llall. 1907! Oedd rhai ohonoch chi heb eich geni!

Wel, mae hwnna (sef y magasin) i rywun fasa'n hoffi'i weld o. Wedyn, dyma ni yn mynd allan wedyn, bawb i'w le 'i hun, i gasglu'r alawon 'ma. A minna', wrth gws, yn mynd i Stiniog. Wel: ardal odidog! Un o'r ardaloedd mwy Cymreig yng Nghymru — a ma hwnna'n ddeud mawr, yr adeg honno. Mae'n para'n o dda eto hefyd, chwarae teg, ond own i am ddeud hyn am Ffestiniog y pryd hynny: oedd yno ganu ymhob man yno. Oedd canu'n boblogaidd iawn: yn yr ysgol, ar yr aelwyd, yn y *Band of Hope*, yn yr ysgol gân, yn y capeli, cymanfaoedd canu — poblogaidd iawn — cyngherddau mynych, corau (oedd yno *ddau* gôr meibion: côr enwog Côr Meibion y Moelwyn a côr J.T. Owen), canu carolau bob Nadolig. Fyddai nhad yn mynd â ni bob bore Nadolig i eglwys Tyddyn Gwyn i glywed nhw'n canu carolau, a dwi'n cofio un ddynes oedd yn canu nhw — mae hi (we)di marw — mi hoffwn i gael gafael yn rhai o'r carolau oedd hi'n ei ganu. Dorothy Charles oedd ei henw hi; Dolly Charles oedden ni'n galw hi. Mae hi wedi mynd. Oedd yna eisteddfodau



yno, a rheini yn flodeuog iawn. Oedd yno seindorf arian; roedd y *Royal Oakeley Silver Band*. Ond dyma chi beth oedd yn od: oedd yno ddim ond un delyn, a dyn dall oedd yn chwarae honno, Dafydd Ffransis, “Y Telynor Dall”. Oedd o’n cael dipyn o drafferth i hel ei fywoliaeth, ond yn yr haf roedd o’n gneud hi’n o lew, oedd o’n mynd i lawr at y ffynhonnau i Drefriw, ac yn chwarae i’r ymwelwyr. O roedd o’n gneud hi’n o lew yn yr haf, ac yn byw ar beth oedd o’n ei hel yn yr haf dros y gaea. Ond rwy’n credu mai rhyw fywyd go dlawd gafodd yr hen Ddafydd druan. Ond wyddoch chi, mae hyn i ddeud amdano fo: roedd o’n dal i chwarae’i delyn, er mai fo oedd piau’r unig delyn yn y lle, a *link* sy wedi dod oddi wrth Dafydd Ffransis — (ydy’r sioe ’di malu?)* — y *link* oedd yn dod oddi wrth Dafydd Ffransis ydi hon, cymydog iddo fo oedd David Jones (Dafydd Jones oedden ni — felly oedden ni’n galw pawb yn Stiniog wyddoch chi). Dafydd Jones, mae o’n gwerthu blawd. Mab i Dafydd Jones y blawd oedd J.D. Jones y canwr penillion, a thad Elinor a Rhiannon, Elinor Dwyrdd a Rhiannon. Fel mae gan yr hen Dafydd Ffransis, er mor ddi-nod ac mor dlodaidd oedd ei fywyd o, mae o wedi cyfrannu rhywbeth i ni heddiw.

Wel rŵan ta! Ôn i’n mynd i hel alawon gwerin wrth y bobol yma, i’r lle yna. Ôn i’n meddwl mod i’n mynd i faes toreithiog. Siomi ges i! Ôn i’n meddwl daswn i’n mynd at rai o’r cerddorion oedd yn y fro — odd yno rai, cofiwch. Na! “Dim byd amdanyn nhw! Twt, twt, twt!” Mynd at arweinyddion canu yn y capeli. ‘Run fath! Oer! Dim cyffro! Da i ddim! Wel, doedd gen i ddim byd i neud. Ôn i’n *cael* ambell i was ffarm o gwmpas yno; odd hwnnw wedi arfer canu mewn llofft stabal, neu mewn sgubor. A’r caneuon oedd gynno fo oedd (y) rhai ôn i’n wybod cynt: “Yr Hogyn Gyrru’r Wedd”, wyddoch chi, “Drws y Seler Wedi’i Gloi”, “Yr Hen Ŵr Penllwyd” — amryw o’r rheina. Wel, oeddwn i’n gwybod amdanyn nhw; gwybod y geiriau. Mae gen i gasgliad yn famma. Dew! Wyddoch chi be? Dyma chi gasgliad, mae yma ryw chwech neu wyth rhifyn. ‘Ma fo. Dyma chi *Ugain o Gerddi Cymru: Hen a Diweddar*. Dwy geiniog: roch chi’n cael rhyw ddwsin o hen gerddi. A dyma nhw fan hyn. Dyma “Bugeiles y Wyddfa”. Dyma’r “Hogyn Gyrru’r Wedd”, “Cerdd yr Hen Ŵr o’r Coed”. Wel, mae o’n ddiddorol dros ben i fynd trwy rai o’r rhain, ac ôn i’n gwybod rhain ’n o lew. Roedd ’na hen frawd yn gwerthu’r rheina yn y farchnad ar nos Sadwrn, ac oedden i’n cael nhw. Fydda’n cadw rhai i mi, chwarae teg iddo fo.

*Cyfeiriad at swm y peiriannau recordio.

Ond oedd cerddorion y *lle* yn neud dim byd â'r sothach 'na. Nag oedden. Cofiwch chi, doedd dim ond rhyw ddwy flynedd er Diwygiad 1904. Ond dw i ddim yn meddwl mai hynny'n hollol oedd yn amharu arnyn nhw, chwaith. Wel: teimlo 'mod i yn methu, yng nghanol y canu i gyd! Fedrwn i gael neb i gydymdeimlo â mi, na neb i roi i mi (y) peth own i'n rhyw feddwl ôn i'n geisio. A chofiwch chi, doeddwn i ddim yn siwr iawn fy *hun* - beth ôn i'n ei geisio — achos wyddwn i ddim yn iawn beth *oedd* alaw werin. Oedd y rhai oedden ni 'di ganu efo Doctor Lloyd Williams, wel, faswn i ddim yn deud mai alawon gwerin oedd *rheini*. "Alawon cenedlaethol", os mynnwch chi. Ond oedd o'n rhywbeth i ni gael ymarfer canu, pan oedden ni'n cyfarfod y tro cynta.

Rwan, fodd bynnag, ches i ddim help gan y cerddorion. Ches i ddim help o gyfeiriad y capeli. Ches i ddim help o gyfeiriad yr ysgolion, naddo. A'r argraff ges i'r adeg honno oedd 'y mod i ar ôl rhywbeth nad oedd o ddim i'w gael; a phe *cawn* i o, oedd o ddim gwerth i'w gael. Dyna'r argraff: bod y bobol 'ma i gyd wedi cytuno bod yr hen bethau, yr hen ganu oedd yn rhoi boddhad i'r hen bobol, bod ei ddyddiau fo wedi mynd, a gadael iddo fo bellach farw, yn y ffair a'r dafarn.

Cofiwch chi, oedden ni'n cael rhai o'r hen faledwyr yno: "(Y) Bardd Crwst". Dyma fo. Bydd rhai ohonoch chi — Oedd Mr Gwynn Williams yn sôn am rhain neithiwr.* Ceiniog yr un! Yr hen faledwyr yn gwerthu nhw. A'r hen "Fardd Crwst" oedd yn gwerthu hon: "Conjee wedi ei gymeryd yn Garcharor", "General Boer and Ladysmith" — y rhyfel yn Sowth Affrica; hanes rhyfel Sowth Affrica, am geiniog. A'r "Bardd Crwst" yn ei chanu i chi. A dyna chi gerdyn oedd hwnnw. Ôn i'n gofyn i 'mrawd ryw dro: "Wyt ti'n cofio," meddai fi, "rhywbeth am 'Y Bardd Crwst?'" "Na, dim llawer," medda fo. "Ôn i'n cofio'i *ogla* fo," medda fo. "Wel, be oedd ei *ogla* fo?" medda fi. "Rhyw gymysgfa rhyfedda," medda fo, "o nionod a baco a chwrw!" Fedrwn chi ddychmygu? Dyna'r "Bardd Crwst". A mi fyddwn i'n un o dwr o blant yn edrych i fyny ar "Y Bardd Crwst" a'i edmygu o'n fawr. A wyddoch chi — does gen i ddim cywilydd (ei) ddeud o — mi fydda'r hen ddyn a'i lygadau fo'n mynd, 'te, at ffenestri tai, 'n enwedig ffenestr y Wynne's Arms. Oedd o yn ymyl honno bob amser. Ac oedd o'n canu, mi glywais i o'n canu am ryw lofruddiaeth erchyll "yn nhre Caerfyrddin fawr" — rhyw Billy Jones a Hannah Johnson. *Anyway*, oedd Hannah Johnson wedi marw, a'r hen ddyn (yn) rhyw ffugio dagrau, chi, wrth ei chanu am gael senten! Geneth mor lân wedi mynd yn aberth i hen greadur drwg erchyll! Gynno fo lais bas da, chi. Wel,

*Bu W.S. Gwynn Williams yn darlithio yn ystod yr un cwrs ar "Traditional Music of Wales".


dyna lle oedd o'n canu'r rhain, a rhai o'r plant, a finna, yn mynd o ddrws i ddrws efo cap, i hel pres i'r hen fardd, 'te. Wedi iddo gael dipyn o bres mi fydda'n mynd i'r Wynne's Arms, a dw i ddim yn meddwl bydda fo yn *tal*u am ddim byd yn fanno, 'ntê, ond fydda'n cael rhyw beint neu ddau. Ond wyddoch chi, oedd o'n *odidog* ar ôl dod allan! Dim *sôn* am y llofruddio a'r gerdd 'ma wedyn! Na! "Y Cyfamod Disigl" Huw Derfel. . . O! *bendigedig* oedd o'n canu "Y gŵr a fu gynt o dan hoelion". Meddylwch amdano fo, yr hen greadur drewllyd, yn canu honna, ac yn ei chanu'n fendigedig!

Wel rŵan, ôn i yn *byw* yn yr awyrgylch yna, chi. Oedd gen i — Ôn i wedi *hel* lot o'r rhain. Wel, dyma i chi: fydda rhai ohonyn nhw'n dŵad fel hyn, dach wel(d), wedi'u printio'n o deidi, gan wasg Huw Evans Y Bala. Wel, ôn i'n gynefin â'r pethau yna: ond lle mae'r alaw werin? Doedd hi ddim yn bod! . . .


Wel, rŵan, dyna ni! *Hopeless!* Ac oedd yna beth arall oedd yn gneud hi'n anodd iawn, chi. Wyddoch chi ddim byd am y byd hwnnw, rhan fwy ohonoch chi. Oedd yno ddim car. Oedd yno ddim *bus*. Mewn gwirionedd, doedd yno ddim byd i chi — *chydig* o feisicls — ond y *mode of locomotion* oedd. . . dau droed, i bob man. Wel, oeddwn i fod i hel cerddi yn ardal Ffestiniog. Oedd hynny'n golygu Penrhyndeudraeth, Porthmadog, Trawsfynydd, a fforna, Dolwyddelan, a doedd gen i ddim gobaith i fedru mynd. Oedd yna drên, wrth gwrs, yn mynd o Stiniog i'r Bala a fforna, ac i Borthmadog, ond benthg beic fyddwn i'n gael pan fyddwn i'n mynd ar grwydr. A weithiau, heirio beic. Fyddwn i'n cael beic am ddiwrnod cyfa am swllt. Ond cofiwch chi, oedd o'n golygu tipyn o chwys i yrru o, a dipyn o amynedd i drwsio *punctures*. Ond eto, oedd dda ei gael o. Doedd yno ddim byd arall.

Wel, hwyrach fydd gen i ragor i ddweud am hynna nes ymlaen. Oedd Mam wedi 'mherswadio fi. . . nad oedd o ddim gwerth y drafferth. Fasa'n well i mi roi 'meddwl ar waith y coleg o lawer. "Ddaw hwnnw â rhywbeth iti. Ddaw â rhyw les iti. Ddaw'r hen ganu gwirion 'na ddim byd." Wel, beth bynnag, ôn i'n eistedd yn yr ardd, wedi gwrandao ar Mam, wedi mynd allan â rhai o'n *nnext-books*. Ac roedd yno hen ŵr — O, oedd o tua. . . dros ei drigain oed 'r amser honno — Benjamin Williams oedd ei enw o. Oedd o'n byw drws nesa i ni. Ac roedd o yn yr ardd, dros y clawdd — clawdd llechi, yn Stiniog — ac yn canu i ryw fabi bach ar ei lin o. Mae'r babi bach hwnnw'n fyw heddiw. Mi roedd o'n *sargeant* yng Nghaernarfon. Fydda fo byth (yn) sbio arna i pan fyddwn i'n gyrru gormod yn y nos yng Nghaernarfon; ôn ni'n ffrindiau mawr. Ond hwnnw

oedd y babi oedd yr hen ŵr yma'n canu iddo fo. Mae'n ddrwg gen i fedra i ddim canu, ond rhywbeth tebyg i hyn glywais i:



Toedd hi'n dlws, deudwch?



Diawcs! Ôn i'n codi 'nghlustiau rŵan! Oedd gen i bapur, a phensel, a dyma fi'n taro'r nodau i lawr. A gwranddo wedyn: oedd hi ddim yn hollol 'run fath yr ail dro. 'Ma fo'r hen ŵr yn ei chanu hi; wel, mi newidiodd dipyn arni.



A'r hen fabi bach yn gwenu arno fo. Wel: Benjamin Williams. Dyna'r *funud* y dois i i wybod bod yna rywbeth yn y peth oedd Benjamin Williams yn ganu oedd yn *newydd* hollol i'r holl ganu ôn i (we)di' i glywed yn Stiniog. A mi roedd hon yn dod yn 'y nghlustiau i o hyd:



Dyna hi. O ble doth hi? Wn i ddim. Ond dyma chi beth rhyfeddach byth. Roedden ni'n cael cymanfa ganu, cymanfa bregethu, yn Ffestiniog bob Pasg. A fyddwn i'n mynd i'r gymanfa bregethu yma. A dw i'n cofio un diwrnod, gwranddo ar hen bregethwr annwyl iawn — un o'r De oedd o — ac yn ystod ei bregeth dyma hwn yn mynd i hwyl — oedd o wedi anghofio'i hun, oedd, yn lân — a dyna lle'r oedd o'n canu... yr un nodau yn union:



Dw i'm yn cofio'i eiriau fo. Peth oedd yn bwysig i mi mai'r un nodau oeddyn nhw, 'run alaw. A dyma fi'n dechrau meddwl: Duw! Dyna beth rhyfedd: cân Benjamin Williams gan hwn! Ac yn ei chanu hi ar bregeth. A cofiwch chi, nid canu *guneud* oedd canu William Jones, Treforys. Nage; oedd o'n rhyw enaid mawr, chi, mynd ar dân. Roedd *rhaid* iddo fo gael emosiwn rywsut, a doedd gynno fo ddim byd i ymollwng iddo fo ond yr hen alaw yma. O ble doth hi? Reit dawel! Rhywle ymhell, bell yn ôl. A fydda i'n meddwl, (wy)ddoch chi, Mr Gwynn Williams neithiwr yn gofyn beth oedd alaw werin. Fuom i'n pyslo dros y broblem yna, syr, lawer iawn, beth oedd ei nodweddion hi, o ble doth hi. A fuom i'n meddwl bod hi'n rhywbeth sy'n mynd ymhell ac yn ddwfn iawn; bod yna rywun yn rhywle rhywdro wedi cael rhyw deimlad, rhyw brofiad, oedd wedi'i sgytio fo. A fedra fo mo'i roi o mewn geiriau. Wyddoch chi, mae iaith yn torri i lawr, weithiau — 's dim geiriau i gael — pan mae rhyw angerdd o deimlad yn gafael ynoch chi. A dyna ddoth. Oes dim byd i neud ond ei ollwng o, fel roedd William Jones, Treforys yn gneud, ei ollwng o ar ryw gân. O ble mae'i nodau'n dod, Duw a wŷr. Mae rhywbeth *primitive*

iawn ynon ni i gyd, wyddoch chi, a phan ddaw hwnnw i'r wyneb, mewn *melodi* mae o'n gollwng ei hun. A mae'n wir am bob cenedl. Ac ôn i'n meddwl mai rhywle fforda roedd gwreiddiau yr alaw werin. Pwy bynnag oedd y cynta i neud hynny oedd yno rywun yn gwranddo, pigo fo i fyny, cyfrannu o'r profiad, drosglwyddo fo i rywun arall, y rhywun arall yn drosglwyddo fo i rywun arall wedyn, ac yn raddol dyna'r hen alaw yn mynd yn *community property* — fel clywson ni neithiwr — a dyna hi'n dod lawr i ni, ac wedi'i mygu — ddim wedi'i lladd, cofiwech, wedi'i mygu.

A wyddoch chi be dw i'n feddwl pam? . . . O ganol y ddeunawfed ganrif mi roedd yna ddau fudiad yn cystadlu yng Nghymru, dau fudiad anghyfartal iawn, ar ganol y ddeunawfed ganrif. Oedd y mudiad cynta wedi cychwyn ers canrifoedd cyn hynny, ac oedd gynnyn nhw alawon gwyh iawn — alawon y delyn, . . . y telynorion, wedi dod i lawr o ddyddiau'r Tuduriaid, ac roedd gan Gymru delynorion yr oedd y byd yn gwranddo arnyn nhw. I mi enwi dim ond tri ohonyn nhw: y ddau John Parry, ac Edward Jones, "Bardd y Brenin" . . . Roedden nhw wedi cyhoeddi llawer iawn; llawer iawn o alawon, chydig o eiriau, a doedd cylch eu halawon nhw ddim yn dod i fewn cylch llais, ond roedden nhw yn bethau tlyson ar y delyn. Wel, rwan; dyna'r mudiad, mudiad y telynorion, mudiad y delyn, a'r delyn mewn bri, ac er bod yr alawon eu hunain allan o gyrraedd cylch y llais, roedd canu penillion i helpu y datgeiniad. Wel, dyna nhw: y delyn, cerddorion, cyfoeth a diwylliant gyda nhw; adloniant — wedi Seisnigeiddio i raddau helaeth iawn — digon o adnoddau, digon o ddefnyddiau at eu gwasanaeth, toreth o alawon, a rhywle tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fe ddaeth yna fwy o eiriau at yr alawon yma. Chydig iawn o alawon oedd gynnnon ni â geiriau iddyn nhw. Chwarae teg i'r Eisteddfod Genedlaethol, a Lady Llanofor yn cychwyn y peth, yntê, a Maria Jane Williams yn dod o hyd i hen alawon â geiriau annwyl iawn, yn y De yma, yn Aberpergwm. Oedd rheini ganddon ni. Cawson gasgliad wedyn. Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin oedd hi. . . . Cawsom nifer o rai da fannu: mi ddaru rheini ddod yn ddiweddarach allan yn gyfrol. Wel, roedd rheina'n dechrau dwad. Oeddan ni'n canu rheina yn 'r ysgolion, *Gems of Welsh Melody* a'r *Songs of Wales*. Oedd; oedd rheina wedi dwad. Ond wyddoch chi be? Er cymaint ei fri, ac er cymaint ei adnoddau, a chymaint ei ddylanwad, oedd o ddim wedi cyrraedd bywyd y wlad: pobol gyffredin y wlad ddim yn gwybod llawer amdano fo.

"A beth oedd (y) mudiad arall?" meddech chi. Dim offeryn; dim ond llais, yn y wlad. Tlawd, dim tonau, benthyca, aildrefnu ambell i hen alaw

oedd yn bod ar gof pobol y wlad. Chydig iawn yn deall dim am gerddoriaeth. Cymraeg oedd yr iaith. Digon o wres a moli. Diwygiad Methodistiaid oedd o. Cantorion di-ddysg. Cyfansoddwyr anghelfydd. Yma a thraw yn cael tŷn â tipyn o fynd arni, a rhywun yn mynd i'r lle hwnnw i wrando arni hi, a dod â hi adra ar ei go', a'i dysgu hi i gynulleidfa mewn ardal arall. 'Rhen "Siôn Singer", yntê. John Williams, Dolgellau. A'r rheina'n raddol yn dysgu'r nodiant; sut i roi'r rhain ar lawr. Ffowc Bach yn sir Gaernarfon. Datblygu'r canu. Rhyw hen ŵr o Benrhyndeudraeth yn mynd i weld John Williams i Ddolgellau. Oedd o ddim yn credu y medran nhw roid y pethau yma i lawr, mewn nodau. Ond dyma fo i Ddolgellau, a dyma fo'n gofyn i John Williams ganu iddo fo — nace, John Williams yn gofyn iddo fo ganu iddo fo: medra fo'i chanu hi nôl iddo fo oddi ar y nodau. A dyma'r hen frawd, Dafydd Siôn Jâms, yn coelio bod posib gneud hynny. A rŵan dyma fynd ati rŵan i anfon yr athrawon, wedi dysgu hwn efo John Williams, o gwmpas y cynulleidfaoedd, a chofnodi yr alawon 'ma, a'u canu nhw, fel (y) tonau a'r emynau oedd yn cael eu cyfansoddi gan bobol fel Williams Pantycelyn. Ac mi roedd y busnes yma yn ennill tir; ac yn ennill tir yn y wlad ymysg pobol gyffredin. A'r llyfr cynta — wn i'm welsoch chi o erioed; welais i un copi — oedd rhyw hen lyfr bach oedden nhw yn cael y tonau yma, wedi'u codi yno fo: *Cyfaill mewn llogell*.^{*} Dyna chi hen lyfr bach diddorol oedd hwnnw. "Siôn Singer", brodor o Felin Mellteyrn yn Llŷn oedd o. Wel, fuodd ysgol Dolgellau yn foddion i gynhyrchu cryn nifer o athrawon i fynd o gwmpas y wlad. Ond erbyn i mi fynd i chwilio am alawon gwerin, beth oedd (y) cyflwr yng Nghymru? Y mudiad *offerynnol* yn edwino. Y delyn, a'r ffidil, yn y dafarn: sumbol gwamalrwydd a gloddest a llygredd. Dyna oedd y farn gyffredin amdani. Mi aeth y telynorion yn dlawd, ac yn ddi-raen, ac i raddau helaeth yn ddi-barch.

Ond beth am y mudiad arall? Ennill tir. Athrawon yn dod. Sol-ffa yn dod. Cyhoeddi llyfrau. A'n rhywle — pryd oedd hi, deudwch? 1859? Dyma un o ddynion mawr y mudiad yma. John Roberts, (y) Parchedig John Roberts, "Ieuan Gwyllt," yn cyhoeddi llyfr canu cynulleidfaol. + A dyna i chi'r gwron. Athrylith oedd y dyn hwnnw. Os oes arnoch chi isio gweld athrylith yn gweithio, darllenwch — mae yna nodiadau gwych arno fo yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, o dan yr enw John Roberts. Mewn oes cymharol fer mi naeth y dyn hwnnw, oedd o'n golygu papurau

^{*}Cyfaill mewn llogell, gan John Williams, "Siôn Singer" (ca. 1750-1807), a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Daniel yn 1797.

+ Llyfr Tonau Cynulleidfaol Ieuan Gwyllt, a gyhoeddwyd yn 1859.

newydd; oedd o'n ysgrifennu; oedd o'n olygydd Y *Cerddor* [Cymreig] am un cyfnod, ac fe wnaeth waith godidog. Mae gen i barch mawr iddo fo. Ac un o'r pethau godidoga sgwennodd o oedd Rhagair i Lyfr Tonau'r Methodistiaid, nid yr un dwetha 'ma ond yr un cyn hwnnw. A ichi weld dyn wedi ymroddi i gynhyrchu tonau i foli Duw.

Wel, rŵan; dyna'r mudiad. Ac roedd y mudiad yma wedi llenwi: cymafoedd canu, canu cynulleidfaol â mynd arno fo, a wyddoch chi be, oedd o yn beth braf, on'd oedd? Dach chi 'm yn gael o heddiw'n amal; anamal iawn — cynulleidfa o bobol, lond capel, yn canu. Fydda i byth, anamal iawn byddai'n cael y teimlad rŵan. Ac mae 'na rywbeth yno fo, chi, mae o'n eich codi chi, 'ntydy, pan gewch chi *ganu* da.

"Wel, sut mae heddiw?" meddech chi. Dyna oedd y cyflwr pan ōn i'n hel alawon. Doedd 'run o'r ddau fudiad yna wedi cymryd y sylw lleia o alaw werin. Dim un o'r ddau. Oedd un yn edwino, roedd y llall yn cryfhau. Wyddoch chi, mae'n rhyfedd mod i yn Y Barri heddiw, trigain mlynedd ar ôl hynny! A wyddoch chi be ōn i'n ddarllen dydd o'r blaen? John Hughes, brawd Arwel Hughes, yn gofidio mewn ysgrif bod y gymanfa ganu yn mynd; canu cynulleidfaol yn darfod; y mudiad yna yn mynd. A lle mae'r alaw werin wedi trigain mlynedd o chwilio a hel a chasglu? Dyma ni yn Y Barri. Rhyw nifer fach ohonom ni — Mr Gwynn Williams erbyn heddiw; Lloyd Williams pan oedden ni'n dechrau, a mae Mr Gwynn Williams wedi gwneud gwaith godidog ar ei ôl o, i gyhoeddi'r pethau yma, yn dod â nhw i ddwylo plant a phobol yng Nghymru, o bob dosbarth, ac fel golygydd Y *Cerddor Newydd* mae o wedi cadw'r fflam i losgi. 'Dan ni'n diolch yn ofnadwy iddo fo; mae o wedi gwneud gwasanaeth mawr. Beth ddaw o'r mudiad yma? Dwi'm yn siŵr. Ond dwi'n gwybod hyn: mae o'n perthyn i'r *ddau* fudiad arall. O ydi, mae'r telynorion wedi cyfrannu rhywbeth i alawon gwerin ac mae'r tonau cynulleidfaol — wel, wrth gwrs, mae rheina wedi'u cydnabod. Mae llyfr "Ieuan Gwyllt" — oedd ei lyfr cynta fo — yn cynnwys hanner cant o alawon na fedra fo ddim ond eu galw nhw "Alawon Cymraeg" neu "Alawon Cymreig". Maen nhw yn y llyfr: "Alaw Gymreig" uwch ei phen hi. 'Dach chi'n gwybod amdany'n nhw, "Llangloffan", "Dwyfor", "Braint", "Moreia" dirion, annwyl. Faint sy 'na ohony'n nhw? A bob tro bydda i'n clywed eu canu nhw, fydda i'n clywed bod 'na ryw *response* gwell yn y bobol, nag yn llawer o'r tonau eraill. Mae yna rywbeth yn dod o'u henaid nhw, trwy'r hen alawon yma.

Wel, rŵan, mynd ati i'r casglu. Dyna fi wedi rhoid y *cefnidir* ichi. Bore wedyn ar ôl clywed Benjamin Williams yn canu, mi eis i edrych amdano fo. Ac yn ara deg: hen ŵr swil oedd o chi. "Be oedd honna oeddech chi'n ganu yn yr ardd yna ddoe, Benjamin Williams?" medda fi. "O ho ho, ddim byd, rhyw hen rigwm!" medda fo. "Rhyw hen rigwm... i'r hen foi bach yma," medda fo, "difyrro hwn." "Fel hyn oeddech chi'n canu hi?" medda fi, a dyma fi'n ei chanu iddo fo. "Da, fachgen. Diawcs! A sut cest di hi?" medda fo wrtha i. "Wel, chi, gwranddo arnach chi'n canu," medda finna. "Mi ddysgis hi." "Ti'n cymryd diddordeb mewn petha felna?" meddai fo. "Ydw, tad!" medda fi. "Sgynnoch chi ragor?" "Oes," medda fo, "ond fedra i'm canu rŵan, sti," medda fo. "Wyddost ti pwy canith nhw i ti?" medda fo, "John, y mab 'ma" (John Benjamin Williams — "Jac Ben" oeddann ni'n alw o...) "Dew! Ddeuda i wrtho am ddod acw heno," medda fo. A mi ddoth. Oedd Mam wedi gneud rhyw banad o de i ddisgwyl o, 'nte. Ond wyddai hi ddim byd, 'te, roedd gen inna botal o gwrw yn y cefn iddo fo.


Wel, roedd o mewn tiwn, a mi oedd o'n canu'n dda chi, llais da, gwyneb glân, hiwmor yn pefrio yn ei lygaid o, chi, 'te. A dyma fo'n dechrau canu 'te. "Cynta Ddydd o'r Gwyliau" oedd y gynta ges i. "Lle gest ti honna, Jac?" meddwn i. "Duw a ŵyr, 'te! 'Rhen hogan yn chanu, sti," medda fo. "Dwi'n meddwl mai yn — yn un o'r tafarna yma clywis i honna gynta," medda fo. "Wyddost ti pwy canodd hi?" medda fo. "Dic Rallt Goch," medda fo. "Dic Rallt Goch?" me finna, "Pwy 'dy hwnnw?" Richard Humphreys oedd o, yn byw ar ben Rallt Goch, dach chi'n mynd i fyny o Faentwrog, i fyny am Llan Ffestiniog, mynd i fyny allt serth, oedd 'na hen ysgol eglwys yn fanno, ac oedd Dic Wmffras yn byw yn tŷ fanno. Wyddoch chi pwy oedd yn byw yna am flynyddoedd ar ei ôl o? Bertrand Russell! Lle godidog yn edrach i lawr dros Ddyffryn Maentwrog.

Wel, pnawn Sadwrn wedyn, ges i amryw o ganeuon gan yr hen Jac. Dyma fi i lawr at Richard Wmffras... i Rallt Goch. "Mae Jac Ben yn deud 'tha i bo chi'n medru canu rhyw gân yn dda iawn," medda fi wrtho fo, "Cynta Ddydd o'r Gwylia". "Hy!" medda fo. "Yr hen Jac a finna 'di canu lawar ar honna!" medda fo. "Canwch hi!" medda fi. Mi canodd hi. Finna 'chodi, 'te. 'Chanu hi nôl iddo fo. Oeddach chi'n deud bod isio gwynt, ond oeddach? Sgin i'm gwynt heddiw, ond ôn i'n medru cael gwynt 'r amser honno. Canu'r "Gaethes Ddu" imi. Canu "Doli". "Pren ar y Bryn" wedyn, 'te. Oedd "Y Cynta Ddydd o'r Gwylia" — "Duwcs annwyl! Dach chi'n gwybod "Y Pren ar y Bryn"?" medda fo. "Na wn i wir," medda fi. Dyma'r "Pren ar y Bryn" yn dŵad. A wyddoch chi, ges i ddim trafferth wedyn. Ôn i'n gwbod mod i wedi taro rhyw *haen* oedd yn perthyn i'r alaw werin yn o agos. A "Pren ar y Bryn", "Y Cynta Ddydd o'r Gwylia",

rheina oeddan nhw. "Pwy arall sy'n canu rhein, Richard?" medda fi wrtho fo. "Hy! Fuoch chi yn top yna efo'r hen Forys Jones?" medda fo wrtha i. "Naddo, erioed." "Ow! 'na chi hen ganwr!" medda fo. "Ow! mae hwnna wedi canu llawr erioed!" "Dy o'n gwbod nhw rwan?" medda fi. "Gwbod nhw? Anghofith o byth monyn nhw!" medda fo.

Robat Morys Jones, 'te. Oedd arna i *ofn* Morys Jones braidd. Ond oedd gin i hen fodryb yn byw yn ei ymyl o. 'Ma fi at honno. "Dach chi'n nabod Morys Jones," medda fi "sy'n byw fannu?" "Ydw'n iawn," medda hi, "beth sgin ti isio efo hwnnw?" "Mae'n ganwr reit dda," me fi. "Duwch!" me hi, "cadw di bella ag y medri di wrtho fo! 'Dy o'm ffit iti fynd ato fo!" me hi. "Na!" "Wel, mae o 'di troi'n ddyn parchus iawn rwan, dydy, a mynd i capal Bethal, dydy?" medda fi. "Ydi," medda hi wrtha fi, "[ond]...nei di'm byd efo hwnna." Wel, dyma fi rwan, ôn i'n mynd syth am Morys Jones, toedddwn. Oedd hi 'di deud digon i yrru fi am Morys Jones!

Wel, rwan, mynd at Morys Jones. 'Ma'r hen Forys Jones, 'te. "Dwi'n clwad bo chi'n *ganwr* ardderchog." "Gora'n y wlad, sdi!" medda'r hen ddyn, 'te... "Wel, canwch dipyn i mi," meddwn i. "Dw i'n mynd yn hen rwan, wsi," meddai fo wrtha i. "O! canwch chi?" medda fi. "Yr Hen W'r Penllwyd." Rhyw hen *alaw* ddigon diniwad:




medda'r hen Forys. A mi roedd hi'n hyfryd gwranddo arno fo. Canodd hi drwodd i mi. (Fydd gen i air am honna eto ymhellach ymlaen)* "Rhywun" oedd o'n ganu wedyn, "Rhywun". "Golud", "Yr Hen W'r Mwyn", "Ffarwel i Blwy Llangywer". Hy! mi ges i lawer gynno fo. A wyddoch chi mor rwydd oedden nhw'n dŵad.

A wedyn mynd i lawr i weld rhyw hen gaptan llong o Bentra Felin, oedd wedi riteirio ac yn byw yn y Llan. Ôn i'n nabod ei ferch o'n dda iawn — peidiwch â mynd i feddwl dim byd, chwaith 'te, mi oedd hi wedi priodi! "A lle ma'ch tad?" me fi wrthi. "O, mae o yn y rwm ffrynt yna,"

*Gweler isod, t.27.

medda hi. A dyma fi'n cerdded i mewn i fanno a chanu "Ffarwél i Blwy Llangywer". Duw! ma'r hen ddyn yn codi! "Chi'n gwbod honna, captan?" me fi. "Yndw," me fo, "yndw tad! Yndw tad! Glywsoch chi hon?" me fe wrtha i.



A dyma fo'n dechrau canu hen ganeuon y môr wedyn. Oedfa fawr efo'r hen gaptlen! Amryw o alawon!


(YN ADRODD) Trafaeliais y byd, ei hyd a'i led,
 A thrwodd a thros y môr;
 Bydd glaswellt ar fy llwybrau i
 Cyn y deua' i i Gymru'n ôl.

Felna roedd o'n canu.

Wel, wna i ddeud peth arall wrthoch chi yn hanes 'y mywyd i rwan. Rhwng hel alawon... Roedd gin i hen fodryb, oedd hi'n bedair a phedwar ugain oed... a mi roedd gynni dyddyn bach yn Cwm Cynfal, rhyw ddwy filltir o Llan Ffestiniog, ac yn ystod yr haf oeddwn i'n mynd i lawr at yr hen fodryb i helpu hi efo'r gwair. Oedd gynni ferlan fach. Oedd gynni dri o gaea, ac oedd gynni dair buwch. Wel, rwan — a fi oedd yr hwsmon. Oedd gynni fab, *dau* fab. Oedd un yn wael ac oedd y llall yn gweithio'n y chwarel. A fi oedd yn cael y gwair i mewn. Wel, hogyn ffarm nesa oedd yn dorri o, efo injan, a fi oedd yn ei gynaea fo, droi o ac ati, a gario fo ar ryw hen gar llusg bach efo ryw hen ferlan fach oedd gynni. A wyddoch chi, un ryfadd oedd 'rhen wraig, oedd ei chloc hi ddwy awr rhy fuan; wedyn oedd ddwy awr o flaen amser trê'n! A doedd hi byth yn edrych arno fo, doedd dim isio. Fydda'r prygethwr yn dod yno'r Sul, a fydda'n ffindio bod yr amsar yn iawn, cyn iddo fo ddwâd y Sul hwnnw, ac wedyn oeddwn i'n gorfod mynd adra at Mam y Sul bydda'r pgethwr yno, er mwyn i'r pregethwr gael 'y ngwely i. Ond dyna fo.


Ryw nos Lun dyma hi'n deud wrtha i, "John! Dwi isio ti fynd i'r cyfarfod gweddi heno, i'r Baball." Baball oedd rhyw gapal bach oedd gynnyn nhw yng Nghwm Cynfal. "Dwi isio ti fynd i'r cyfarfod gweddi heno. Ti'm wedi *bod* o gwbl." Wel, deud y gwir ichi, doedd arna i'm isio mynd. "Wel i be?" me fi, "dwi'n *ddiarth* iddyn nhw i gyd," me fi. "Weldi, mae gin ti isio dipyn bach o ysbryd cyfarfod gweddi hefyd," me hi. "Dos di i

cyfarfod gweddi heno! (W)na i llau dy sgidia di.” A mi es i’r cyfarfod gweddi. Wyddoch chi ’na’r lle hynota erioed fues i ynddo fo! Oedd o’r yn gapal mawr... a’r hen greaduriaid (yn) dod i mewn, wyddoch chi, a’u cŵn tu ôl nhw, ’run dillad ag oedd gynnyn nhw yn y caea. Dod i mewn i’r sê, ac fel gwelsoch chi — fel buom i fy hun lawar gwaith, ’te, a fasa fyw i mi neud fel arall, yn bagio dipyn wedi cyrraedd y sê i’r wraig gael mynd i mewn gynta, ’te. Odd *rhein* yn bagio dipyn i’r *ci* gael mynd i mewn gynta. A’r hen gi’n gosod ei hun, wyddoch chi, ’r un fath dae o’n ben blaenor y lle, pen y sê, ’te. Ac oedd dau neu dri ohonyn nhw’n dŵad â’u cŵn felna. Wn i ddim beth oedd dylanwad yr Efengyl ar y cŵn. Ond dyma... rhywun oedd yn arwain — dwi’m yn cofio pwy oedd o — “Wiliam Jones,” medda fo, “ddowch chi i ddechrau’r cyfarfod gweddi heno?” Wiliam Jones deud dim byd, te, ond toc dyma ryw air o gyngor a warning i’r ci, te, bod o fod yn dawal tra bod Wiliam Jones ar ei daith a dyma Wiliam Jones yn codi, dach weld, te, ac yn adrodd ei bennill o’r sê i ymyl rhyw bwlpud bach oedd yn y ffrynt. A wedyn oedd yna godwr canu: Robin Wmffra’r Cŵn. Dyna i chi gerdyn oedd hwnnw. Peth cynta oedd o’n neud wedi i’r hen frawd gyrraedd a gorffan — “Myfi’r pechadur penna”, dwi’n meddwl, oedd y geiriau — dyma fo’n cael y gadair, te, a gosod hi yn deidi. Wedyn dyma fo i fyny hi, a sefyll ar ben y gadar — a cofiwch chi, doedd yna ddim pymthag yno i gyd. Wedyn, ’ma fo i boced ’i wasgod:



— ac oeddan nhw i gyd yn seinio’r nodyn hefo fo. A dyma ddechra te; pob un yn dechra canu. Wel, wyddoch chi, feddylies i fasa fo’n byrstio. Oedd gwythienni ei wddw fo, oeddan nhw’n sticio allan y-chi, a Robin â’i holl nerth yn canu! A dyma i chi (y) peth oedd yn od, oedd yna amryw arall — oedd pawb yn canu — rhai’n *trio* canu’r un noda â Robin, a’r lleill yn canu rwbath-rwbath tebyg i beth glywodd yr hen foi ’na aeth drwy Gymru... yr esgob ’na... Gerallt Gymro, ia. Rhai’n *trio* gneud beth oedd hwnnw’n ddeud oedd o wedi glywad — dwi’m yn goelio fo am funud. Ond wyddoch chi beth oedd yn od? Doedd dim un o’r rhein yn canu’r un nodau. Dyna i chi’r *harmony of discords* mwya gogoneddus glywis i erioed. Ôn i’n neud *Physics* yn y coleg, ac yn gweithio — a dwi’n cofio yn iawn — gweithio *ratios* y *vibrations* ’ma, a faint oedd isio i gael *discord* neu *harmony*, ’te; a rhyw *Helmholtz resonators*, dach chi’n cofio? Falla nad

oeddau nhw 'm, 'te. Ond daswn i'n mynd â petha felly i'r Babell, fasan nhw da i ddim byd a fasa neb byth dod yn agos i'r Babell, dod i weld petha felly yno. Ond dyna fo: *harmony of discords!* Pawb yn canu rhyw noda 'i hun, a wyddoch chi oedd yna ryw bath yn nefolaidd yn hynna, do mi ddeud y gwir wrthach chi; nid cellwair ydw i. Faswn i'n rhoi y *byd* am gael mynd i fannu efo record heddiw, imi gael *tape* o'r hen fois rheini'n canu, fel roeddau nhw. Mi glywis i yr un peth â glywis i gan Mrs Ffrances Môn Jones neithiwr. Oedd yna ryw beth yn y dinc. Oedd yna ryw beth yn y modd; na, doedd hi ddim ar y nodyn. Chydig i fyny, chydig i lawr, ac eto yr *effaith* yn eich adgofio chi fod yna ryw *scale*, ryw raddfa gerddorol yn bod yng Nghymru ac yn enaid y Cymro cyn i Bach na neb arall ddyfeisio y raddfa yma sy' gynnom ni ar y piano. A mi ôn i'n cael hynny ymhob un o'r hen bobol yma pan ôn i'n hel y cerddi yma. Ffraeais i fwy efo Lloyd Williams na neb, am fod o'n cau 'nghoelio i! Cofio mynd i Drawsfynydd, Wiliam Edwards oedd y boi, canu "Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf". Oedd o'n 'chanu'n dda, cofiwch. Wrth 'y modd yn gwrando arno fo. A dyma fo'n canu un ar ei hôl i mi. Ew! ac ôn i mewn trafferth! Fedrwn i yn 'y myw wybod — a finna wedi cael 'y nysgu yn yr ysgol, dach chi'n gweld, y *diatonic scale*, te, a'r hen Bifan, chwarae teg i'w galon o, wedi dysgu ni, trwy *ear tests* ac felly te, i gael y seiniau'n gywir. Ac ôn i'n un reit dda am *ear tests*. Ond *ear tests* neu beidio, wyddwn i ar ddaear, chwel, pwy *scale* oedd hwn yn canu. A wel, mi drias roid y noda i lawr, fel ôn i'n deud neithiwr, a ryw *signs*, te, *up or down*, neu *on the level*, a — ma'r petha 'ma'n ddigri, y chi — ac mi ges yr alaw yn diwedd. "Synnwyr Solomon" oedd hi, mae yn y *Journal*:




Pe bawn i yn per-chen syn-nwyr So-lo-mon, Gwn y by-ddaf yn
ddi-gon rhaid, Ac i-mi ei iw-sio bob yn ro-nyn
Wrth i-mi fy-ned i dde-wis gwraig. Mae rhai'n rhy ffyr-nig a
rhai yn gyth-reu-lig, A rhai a'm gal-want yn ei-thaf ffôl; Cy-



Dyna hi!* Wnewch chi drio cofnodi honna? Neu dasach chi'n lle fi'n trio 'chael hi ar bapur, pan oedd Wiliam Edwards yn ei chanu. Ond, mae hyn i ddeud, mi dysgis hi. A dyma fyddwn i'n neud pan oeddwn i'n cael anhawster, trio 'chael hi ar bapur. Ar ôl i'r canwr ei chanu hi ddwywaith neu dair — a wyddoch chi, doedd o 'm (ei) chanu bob tro'r un fath — och chi'n ffeindio rhyw L.C.M., beth oedd yr alaw i fod. Wedyn, ei chanu hi'n ôl fy hun, a wyddoch chi oedd rhai ohonyn nhw yn ddigon parod i — “Twt! Dach chi'm yn iawn! Ddim yn iawn! Chi'n canu hwnna'n rhy frysiol! Cymwch amsar... Cymwch eich gwynt!” A felly byddan nhw'n siarad efo fi, y chi. Ond fyddwn i'n mwynhau'r cwblwl, te, ac yn cael yr alawon. Fyddwn i'n (ei) chanu'n ôl iddo fo i edrach oeddwn i'n gywir. Ac wedi i mi ei chael hi, canis hi ddwywaith dair i Wiliam Edwards, oedd hi'n iawn. 'Ma fi'n ôl. Ei chanu hi i Lloyd Williams ym Mangor. “Twt!” me fo, “be dy peth fel'na dach chi'n gael?” “Wel, dyma hi i chi,” meddai fi, “am ei gwerth. Un o'r petha tlysa dwi wedi glwad.” “Na, o na, na,” me fo. “*All right*,” me fi... “Dwi'n mynd i'r Bala ddy' Sadwrn,” me fo. “Duwch!... Stopiwch yn Nhrawsfynydd i gael clywad Wiliam Edwards. Mi yrra i ato bo chi'n dŵad,” me fi. “Newch chi?” “Naf”. Mi ddaru, mi aeth i Drawsfynydd. Wel, ôn i'n disgwyl ei weld o bore Llun yn y coleg te. “Sut ddoth hi ddy Sadwrn?” “Ôch chi'n berffaith iawn,” me fo wrtha i. “*Thank you very much*,” me fi. 'Ma fi o na am fy mywyd 'te. Dyna'r cwblwl oedd arna i isio glwad!

Ond roeddan ni'n cael petha od, y chi. Dwi'n cofio dro arall. Ôn i'n cerddad o'r coleg — wyddoch chi am Fangor — ond yr hen goleg ôn i, Penrhyn Arms. Ac ôn i'n mynd adra i Upper Bangor i gael cinio ryw ddiwrnod, ac wedi dod i fyny at y cloc, dyma ryw hen frawd ar gornel stryd yn ymyl y banc, yn canu. A diawcs! dyma fi'n stopio.




A'r hen frawd â'i ddwylo i fyny, y chi! Duw! dyma fi'n syth ato. “Be dy honna dach chi'n ganu?” meddai fi. “Tra Bo Dau,” me fo. Wel ôn

*Cylchgrawn, cyf.1, rhif 2 (1910), t.89.

i erioed wedi clwâd am “Tra Bo Dau”. “Ylwch!” me fi wrtho fo, “ddowch chi draw i ganu, i fancw efo fi?” “Ddo i,” me fo. A lle’r es i â fo ond i *billiard room* y Castle Hotel. Oedd Tom y marcar a finna yn dipyn o *chums*. A wedyn dyma ni’n mynd i fyny, te, a gofyn i Tom fynd i nôl dau beint, un iddo fo ac un i’r boi canwr. Oedd o’n fab i Abel Jones, “Bardd Crwst”. Ma’r dêt — mi sgwennais i ryw nodyn yn rhyw hen lyfr bach... “*Sung on the street at Bangor, April 1907, by the son of Abel Jones, “Bardd Crwst”*”; a dyma “Tra Bo Dau”. Noson honno — ôn i’n meddwl mod i wedi gneud rhyw ddarganfyddiad *gwyh!* Ôn i yn meddwl bod hi’n wych. A dyma fi i dŷ Lloyd Williams. “Gen i hen alaw, isio i chi chlywad hi,” me fi. A dyma fo’n ista wrth y piano, a finna’n ei chanu. . . . “Ma’r wraig yma’n canu honna,” me fo. Wel, dyna gnocio’r gwaelod te, a phres dau beint wedi mynd *west!*

Fel ôn i’n deud wrthach chi, doedd yna ddim byd i gario neb na dim yn Stiniog, ac roedd tŷ ni oedd o filltir reit helaeth o’r stesion, ond y North Western pryd hynny. Ac os bydda gin i isio mynd â bag o’r tŷ i’r stesion i fynd i’r coleg, fydda raid imi ofalu ’mod i’n gweld rhywun efo car-a-cheffyl oedd yn mynd i fyny i gyfeiriad y stesion. Wel, ôn i’n gwyllo’r bora yma am “Lewys Llefrith” — Lewys Edwards oedd o, yn gwerthu llefrith. “Lewys Llefrith” oedd o. Oedd yno un arall, “Robin Bwtsiar,” nage, “Robin Cig”, achos oedd yna “Wiliam Jones Bwtsiar” a Wiliam Jones Bwtsiar fydda’n gwerthu cig i ladd moch; “Robin Cig” oedd y dyn o’n sylpio ni efo cig... oedd job pawb wedi’i gysylltu â’i enw o, ... oedd o mor naturiol, dach wel, ôch chi’m yn meddwl amdano. Wel, “Lewys Llefrith”. Hen — be oedd o? Be dy enw’r hen geir bach crwn ’na, dwch? Fyddan nhw’n mynd â plant i’r ysgol ers talwm, bobol fawr yma, ha? *Governor’s bags* te... [roedd un] gin Lewys, a llefrith tu mewn, a’i godi o efo pisar — o, *hygienic* ofnadw te! Ond dyna fo, “A’i at Lewys i ofyn fasa’n mynd â ’mag i i’r London North Western Hotel...” “Af! Af mewn munud! Tyd â fol!” A roid o yn y car bach ’ma. Ac oedd o’n ei adael o efo Dic yn London North Western Hotel. Ôn i’n nabod Dic yn iawn. Wel, ôn inna’n cerddad i fyny i ddal trênn, tua dau o’r gloch. Oedd yna gyngerdd ym Mangor yn y coleg noson honno, ac ôn i i fod yno i ganu, a Lloyd Williams, fasa yn *lladd* i taswn i ddim yn troi i fyny. Wel, cerdded i’r stesion, troi i London North Western. Oedd yno ryw hen frawd yno, “Dafydd Rallt”, a ... sgwrsio efo Dic, a ’ma fi’n gofyn i Dafydd — ôn i’n weld o’n hen fachgan reit glên, te — “Rhowch lasiad i Dafydd,” me fi. Wel, glasiad i Dafydd. “Yldi,” medda Dic, “rhaid iti fynd â bag Mistar Morris i’r stesion ar ôl iti yfad hwnna.” Ma sgwrsio efo Dafydd. A dyma Dafydd yn dechra deud wrtha i, “Fuoch chi yn

Tangrisia, fachgan?" "Do." "Yn hel alawon?" "Do," me finna. "Fasech chi'n dod ata i?" me fo. "Duw! ti'n gwybod rhei?" me fi. Wel, dyma Dafydd yn dechra canu imi. "Yli," me fi, "tyd o fama. Awn ni am y stesion rŵan. Cei di ganu imi ar y ffordd i'r stesion. Odd ddim llawar o amsar. A dyma fo'n dechra canu imi, "Yr Eos a'r Glân Hedydd". Chi'n gwybod hi?



Stori *agonizing*! Wel, Dafydd yn canu hon imi ar y ffordd i'r stesion. Oedd yna *res* o benillion, ac oedd arna i isio nhw i gyd. Oedd (y) trênn yn barod i fynd. Tom Williams oedd enw'r *guard*: nabod hwnnw'n iawn. Doeddach chi'n nabod pawb yn Stiniog, y-chi, amsar honno, nabod *neb* heddiw. "Tom!" medda fi, "Peidiwch â mynd am funud, ma' hwn (yn) canu imi". A Dafydd (yn) dal i ganu. A bobol wedi mynd i'r trênn, te. "Tyd i'r *van*!" medda fi wrth Dafydd. Ac yn y *van* rôn i'n ista ar ryw hen fag, sgwennu'r geirie yma — ôn i wedi cael yr alaw'n iawn, te. Tom Williams (yn) cadw sŵn! Dow! Pennill ar ôl pennill yn dŵad! Tom Williams yn edrach ar ei *watch*. "Yldi," me fo, "(rhaid) 'mi fynd!" "Mae yna *chwarter awr* i'r trênn yma aros yn *junction*, nes bydd trênn arall," me fi, "yn dŵad i'w gyfwr o. Mae'n o-reit, Tom!" me fi. A wedyn — wyddoch chi, dyddiau bendigedig, te. Yr hen giard wrth ei fodd yn gwrando ar hwn yn canu te. Wedyn dyma roi ffarwél i Dafydd, te, a pres peint arall iddo. A wedyn Tom Williams yn ista fanna, a finna, yn y *van* yn canu, lawr trwy Dolwyddelan, Betws-y-Coed, ffora, i lawr i'r *junction*. A oedd Tom yn gorffen yn fanno, te.

Wel, "Dafydd Rallt". Noson honno, 'ma fi'n cyrraedd Bangor. Ôn i wedi canu'r hen beth bach yma, bron yn ddi-stop, i mi fy hun, te. Ac yn ei hoffi! A'r geirie yn fendigedig! Ac ôn i i fod i ganu alaw arall yn y cyngerdd yma noson honno. Ac oedd yno hogyn, artist wrth biano, Gwilym Parry, o Mold. 'Ma fi lawr i lodjin Gwilym... "Gwilym," me fi,

"Be dwi i ganu heno?" Doedd o'm gwybod. Sbio'n program, "Wel, dyma hi", me fo. "Yldi," me fi, "'di da i ddim! Gwrandda ar hon!" me fi. 'Ma fi'n canu'r "Eos a'r Glân Hedydd" iddo fo. "Fedri di chwarae honna?" me fi. "Duw annwyl, medra!" me fo. A wir, mi chafodd hi. Wel, roedd ei *accompagnement* o'n fendigedig, wyddoch chi, rhwng bob pennill, ynte. A felly buo hi: canu. Noson honno, mynd i'r cyngerdd. Dyma 'nhro i'n dwad, i ganu, te — ac oedd neb yn *galw* na'm byd. Oedd Lady Reichel a Syr Harry Reichel a Lloyd Williams a'r bobol fawr yma i gyd yn y ffrynt. A dyma'r piano'n mynd y-chi. Duw! dyma Lloyd Williams (yn) codi fel matsien ac (yn) mynd am Gwilym Parry, te. "Be ti'n neud? Be ti'n neud? Nid honna ydi! Nid honna ydi!" "Steddwoch lawr," medda Gwilym, "gwrandewch ar hon!" Ac erbyn hyn ôn i'n dechra canu, 'nte. Oedd Lloyd Williams yn edrach fel teigar arna i! (D)uw! oedd o wedi gwylltio! Dw i'm yn meddwl bod o'n *gwrando* arna i'n iawn! Lady Reichel (yn) hollol fel arall! Fel *hyn* o'mlaen i te! Ôn i'n gwybod basa hi'n licio hi: oedd honno'n ddynes *wych*, y-chi. A'r hen Lloyd Williams wedi gwylltio! Ond beth bynnag, dyma'r *crowd* yn deud be oeddau nhw yn feddwl o'r hen alaw yma. A fuo raid imi ddod yn ôl, i ailganu rhyw ddau neu dri o'r penillion. Erbyn hyn oedd Lloyd Williams — oedd o'm yn gwylltio'n hir, y-chi, fel matsian, oedd o'n diffodd toc — oedd *hwnnw*'n dod ato'i hun. "Peth bach tlws gawsoch chi oedd honna," medda fo. "Ia," me finna, "tlws iawn." A dyna'r cwbl, te.

Wel, dyna fu. 'Dach chi'n gwybod am "Mynwent Eglwys", 'dydach? Cathrin Jên. Mynd i dŷ rhyw hen wraig i ffarwelio â hi cyn dod nôl i'r coleg, a rhyw ferch yn ista ar stôl yn ymyl tân. Cathrin Jên oedd ei henw hi. Oedd hi newydd gladdu 'i gŵr, Robin. Ôn i'n nabod Robin yn iawn. "Wel, wyt ti newydd gladdu Robin, 'dwyt," medda fi wrthi. "Ydw," medda hi. Mae'n dechra crio. "Ble wyt ti wedi bod," medda'r hen Siân Gruffudd, "heb ddod i edrych amdana i tan rŵan? Wyt ti'n mynd i ffwr(dd) fory." Finna'n deud wrthi mod i'di bod yn hel. "Duw!" medda hi, "be oedd isio ti fynd yr holl ffor' yna? Yli Cathrin Jên yn famma, *hon* sy'n gwybod nhw." "O, wel, *ydach* chi'n gwybod nhw?" "Ydw. Gwbod nhw i gyd," medda Cathrin Jên. Oedd hi yn fymyl i fannu. "Wel, (w)na i'm gofyn ichi ganu rhai, Cathrin Jên," me fi. "Gwela i chi tro nesa do'i adra." "Faswn i'n licio canu *un* i chi," me hi, "ar ôl Robin." A dyma hi, 'nte:

(YN ADRODD) Pan own i'n rhodio mynwent eglwys,
Chwilio am rywle teg i orffwys,
Tarawn fy nhroed wrth fedd fanwlyd,
A chlywn fy nghalon fach yn symud.

Dyma hi'n torri i lawr. "Dlyfa hwn," medda'r hen Siân Gruffudd, "panad o de. Aros iti gael y penillion erill." Ôn i'n *gubod* y penillion erill fel digwyddodd hi, 'nte. Ond oedd Cathrin Jên yn mynd i ganu peth wmbreth imi. Ond cyn imi fynd adra ddiwadd y term oedd Cathrin Jên wedi mynd ar ôl Robin. A wyddoch chi, un o drasiedia mwya alawon gwerin Cymru ydi hyn: nad oedd yna ddim *digon* ohonon ni ar y maes, wedi inni ddechrau'u cael nhw, i hel rhagor ohonyn nhw. Mi gollais i ugeiniau! Pobol ôn i'n *gubod* bod nhw'n gwbod rhagor, a finna'n disgwyl am y cyfla i fynd yn ôl atyn nhw. Mynd yn ôl atyn nhw — a nhw wedi marw. A maen nhw [h.y. yr alawon] wedi mynd efo nhw. A *mae* o'n drueni.


Wel, rŵan, i orffan. Hen frawd, pregethwr cynorthwyol — ...petha peryg 'di rheini, cofiwch — o(dd) hwn yn dduwiol ofnadwy, fwy duwiol lawer na'r rhan fwya o bregethwyr. O'n bregethwr cynorthwyol, ac yn byw'm Maentwrog. John Ellis o'i enw o. Ond odd yr hogia 'ma yn y Llan, Morys Jones, a John Morys Jones, Trawsfynydd (*hwnnw* ganodd lot i mi), o(dd) rheini'n deud wrtha i am yr hen John Ellis, bod o rël boi yn ei ddyddiau cynnar, pan odd o'n llanc — un o'r cantorion gora — o' gynno fo lais da (he)fyd. A John Ellis — "Wel, du," me fi, "a'i i edrach am John Ellis. Ma' na gysylltiad rhwng y ddau deulu," medda fi. "Hwyrach ca i groeso 'no."

A dyma fi i edrach am John Ellis, te. Mi ges de ardderchog, croeso mawr — ond mi t(a)fododd fi, te, mod i'n wastio famsar efo'r hen sothach 'ma: "Be ma'r rhein dda i ti? Be ma'r rhein dda i neb?" "Wel, *canwch* rai onyn nhw," me fi. "Dach chi'n gwbod nhw; ma'r hogia 'ma'n deud 'tha i bo chi'n —" "Chana i'r un iti! Dwi 'di *gorffan* efo'r bywyd yna ers blynyddoedd. Sothach! Sothach! Gin i betha gwell i feddwl amdany'n nhw!"

Wel, odd ei ferch o yn pitio drosta i, te. Ôn i 'di arfar efo'r petha 'ma rŵan. "Dyma fi'n mynd am y trê'n, wân," me fi wrtho fo. "Wel aros; ddo i efo ti i ddanfôn di," me fo. "A rho di'r hen betha 'ma allan o dy go am byth!"

Wel, oeddau ni'n cerddad i'r stesion. A mi'r odd gin i un tric odd yn gweithio bob tro, os odd rhywun yn gwrthod canu, wel, dodd dim isio 'm ond ryw *mwmian* rywbath, dach weld — Duw! mi odd hi'n deffro

rhyw hen dân odd yno fo, te! Ag ôn ni'n mynd ar hyd 'rhen lwybyr bach 'ma am stesion Maentwrog, rŵan:



"Lle cest ti honna?" medda John Ellis. "O, 'r hen Forys Jones yn Llan." "(R)heina odd y geirie odd o'n ganu?" "Ia. Dew, odd o'n chanu'n dda!" medda fi. "Tyd i'r sied cw!" me fo. A ma'r sied flawd yn ymyl y stesion. "Cana i ti yn fancw — a mi cana i iti ar y geiria ma hi *fod!*" me fo. "O!" me fi.

A dyma ni i'r sied flawd. Wn i'm, welsoch chi 'm sied flawd yr hen stesions ers talwm? O(dd) 'na blatffom yno, 'n doedd, a (we)dyn o(dd) 'no le i ddod â'r drol i mewn; wedyn odd ddim isio codi'r bagia, ddim ond eu llwytho nhw o-ar y platffom i'r drol, te. A John Ellis yn ben y platffom — cau'i ddau lygad yn sownd — a dyma fo'n dechra canu, yr un alaw. A mi glywch hi rŵan: record. Y fi canodd hi — pan ôn i'n medru canu. A Cleaver ddoth o hyd iddi. Ôn i'm yn gwbod mod i (we)di'i chanu hi. Ôn i (we)di'i chanu rywdro ym Mangor efo Osian Ellis, medda fo, ond mi *goelia* i mai'n llais i *oedd* o amser hynny. A dyma John Ellis yn canu ynghanol y sacha bawd: gwrandwch!*

*Gwelir y gân, "Cerdd Job", yn *Canu Gwerin*, 2, 1979, tt.52-3.

SUMMARY

The late John Morris, (1887-1977) a native of Ffestiniog, was active in the early years of the folk-song movement in Wales, both as collector and performer. As a student at Bangor he was a member of the "Canorion," the folk-song party founded by John Lloyd Williams, and collected upwards of forty songs in his native area. The above article is a transcript of a talk given to the Society's weekend school at Barry in 1965, in which Morris recounts some of his experiences as a collector in the years 1907-10. There were many difficulties to be overcome: the natural shyness of the singers themselves; the opposition of local musicians who, under the influence of the choral movement of the late 19th century, tended to devalue folk-song;

and the abiding presence of the religiosity awakened by the Revival of 1904-05, which tended to equate folk singing with drunkenness and wayward living. The experiences here related reveal how successful Morris was in overcoming such difficulties, and offer amusing sidelights on the art of collecting and the inducements offered to prospective singers. In spite of his successes, Morris is forced to conclude that there were too few collectors in the field at a crucial time, and that a large part of the heritage of Welsh folk-song is lost for ever.

ATGOFION AM GASGLWYR ALAWON GWERIN CYMRU

Enid Parry

Codwyd y sylwadau canlynol o anerchiad a draddodais yng Ngregynog ar Fedi 30, 1989. Soniwyd am chwech o gasglwyr, sef Maria Jane Williams, Ieuan Ddu, Dr J. Lloyd Williams, Dr Mary Davies, Lady Herbert Lewis, a Grace Gwynedd Davies. Canwyd esiamplau o ganeuon a gasglwyd gan bob un ohonynt gan Buddug Lloyd Roberts.

Afraid yw ymhelaethu ar Maria Jane Williams, gan fod ei hanes ar gael yn awr yn rhagymadrodd rhagorol Daniel Huws i *Ancient National Aïrs of Gwent and Morganwg*, sef ffacsïmïle o argraffïad 1844, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1988.

Am Ieuan Ddu, gweler *Y Bywgraffïadur Cymreig*, a'r tarddellau a nodir yno.

Gyda'r Dr Mary Davies down at y ganrif hon. Ceir atgofïon difyr iawn amdani gan T.I. Ellis, o dan y teitl "Mair Mynorydd" yn *CCAGC* Cyfrol V, t. 9. Ni welais erioed mohoni, ond clywais sôn amdani gan bobl a oedd yn ei hadnabod neu wedi ei chlywed yn canu. Yr oedd y diweddar Ddr John Gwilym Jones yn arfer ymffrostio ei fod yn eistedd yn yr un sêt â hi, bob bore Sul, yng nghapel Charing Cross, pan oedd ef yn athro ysgol yn Llundain. Erbyn hynny yr oedd hi'n hen wraig — "hen wraig fach annwyl iawn," meddai, "ac yn gwisgo dillad duon bob amser." Eisteddai yng nghongl y sêt, ac yn union o flaen y bregeth, arferai sibrdw wrth John Gwilym, "*Remember to wake me up, won't you when the preacher comes to the end of his sermon!*" Yna, gosodai ei hun yn gyfforddus yn ei sêt, a chysgu'n sownd tan ddiwedd y bregeth. Y mae'n rhaid bod ganddi lais anghyffredin o brydferth, a buaswn wedi rhoi unrhyw beth am gael ei chlywed yn canu, ond pan oeddwn i'n blentyn yng Nghaerdydd, yr oedd ei gyrfa fel cantores broffesiynol wedi dod i ben. Ond yr oedd hi'n dal i weithio dros y Gymdeithas Alawon Gwerin, drwy fod yn llywydd arni, casglu alawon, a darlithio arnynt.

Pan oeddwn yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd, cefais lythyr ryw ddiwrnod oddi wrth Dr J. Lloyd Williams yn gofyn a fuaswn i'n ysgrifennu erthygl bob mis i'r *Cerddor*, yn beirniadu'r rhaglenni cerddorol a oedd yn cael eu darlledu o Gaerdydd. Cytunais, er yn bur betrusgar, oherwydd fy mod yn ifanc a dibrofiad, ond cefais gryn bleser wrth y gwaith. Un o'r pethau a werthfawrogn oedd derbyn llythyrau gan J. Lloyd Williams tra bûm yn cyfrannu at y cylchgrawn yr oedd ef yn olygydd arno. Ond bu raid imi ddisgwyl yn hir cyn cyfarfod y dyn hynod hwn.



Yn fuan ar ôl imi briodi, a mynd i Fangor i fyw, fe ddechreuodd y rhyfel, a dyna ddiwedd ar gyhoeddi'r *Cerddor* a llawer o gylchgronau eraill. Ryw noson, cyn diwedd y rhyfel, yng nghanol y *blackout*, a hithau'n noson arbennig o dywyll, dyma gloch y drws yn canu, a phwy oedd yno, ond Dr J. Lloyd Williams ei hun. Yr oeddwn yn methu â deall sut y daeth o hyd i'n tŷ ni, oherwydd yr oeddem yn byw yn Lôn Meirion ar y pryd, ar gyrion uchaf y dref, ac yr oedd yntau'n aros mewn gwesty yng ngwaelod y dref. Yr oedd wedi cerdded i fyny'r holl elltydd o'r fan honno, heb bwt o oleuni, ac yr oedd yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed y pryd hwnnw.

Dychmygwch fy llawenydd wrth sgwrsio hyd oriau mân y bore gyda'r gŵr yna yr oeddwn ers blynnyddoedd wedi dyheu am gael ei gyfarfod. A thestun y sgwrs? Na, nid alawon gwerin na cherddoriaeth o unrhyw fath. Am ryw reswm, fe ddechreuodd siarad fel botanegydd, ac am lysieuog y siaradai drwy'r amser. Ni wn sut yr aeth ar y trywydd hwn, os nad oedd fy ngŵr wedi ei holi ynglŷn â'i waith ymchwil. Er iddo ymddeol o'r Gadair Botaneg yng Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth ers blynnyddoedd, yr oedd ganddo'r un brwdfrydedd yn ei briod bwnc ag a oedd ganddo'n ddyn ifanc. Er nad oedd fy ngŵr na minnau'n gwybod dim am fotaneg, yr oeddem wedi ein cyfareddu wrth wrando ar y dyn bach bywiog yma'n twymo iddi, ac yn esbonio'r hyn a wnaeth yn ei waith ymchwil ynglŷn â gwymon y môr, ac yn wir fe wnaeth ddarganfyddiadau pwysig yn y maes hwn. Ymysg pethau eraill, yr oedd wedi darganfod sut yr oedd gwymon y môr yn ei atgynhyrchu ei hun — rhywbeth a fu'n ddirgelwch llwyr i wyddonwyr cyn hynny. Wel, fe aeth ymlaen i siarad, trwy amser swper hyd berfeddion y nos. Tua dau o'r gloch y bore, cododd yn sydyn ar ei draed, a dweud bod raid iddo fynd, gan fod arno eisiau dal trê'n yn gynnar yn y bore. Aethom ag ef yn ôl i'r gwesty — cerdded yr holl ffordd, gan nad oedd gennym gar y pryd hwnnw, ac fe aeth ymlaen i siarad am ei waith ymchwil nes cyrraedd y gwesty. A dyna'r unig dro imi ei weld. Aeth yn ôl drannoeth i Gaerfaddon, lle'r oedd yn byw gyda'i fab, Idwal, meddyg teulu mewn pentref o'r enw Peasedown St. John. Enw'r tŷ, yn addas iawn, oedd 'Llwyn Onn'.

Y mae Siân Williams, ei ferch-yng-nghyfraith, yn byw ar ei phen ei hun yn y Benllech, ym Môn, heddiw, ac erbyn hyn y mae hi'n dair-ar-ddeg-a-phedwar ugain oed. Gofynnais iddi yn ddiweddar sut ddyn i fyw gydag ef oedd Dr Lloyd Williams. "O," meddai "angel o ddyn — dyn hyfryd ei gael yn y tŷ. Yr oedd yn gwmniwr da, a 'doedd o byth yn cwyno." Yr oedd yn amlwg bod Siân yn meddwl y byd ohono, ac yn sicr, yr oedd yntau'n hynod o ffodus i gael cartref mor braf gyda'i fab a'i ferch-yng-nghyfraith, yn ystod chwe blynedd olaf ei oes, ar ôl marw

ei wraig. Cyhoeddodd Siân Williams ei hatgofion, ar ôl iddi basio ei phedwar ugain oed, o dan y teitl *Mat Racs*, ac y mae'n sôn dipyn am Dr Lloyd Williams yn y llyfr hwnnw. Fe gasglodd ef fwy o alawon gwerin Cymru na neb arall. Bu'n olygydd CCAGC o'r cychwyn hyd ei farw yn 1945. Dyna oedd ei waith pwysicaf, ac ef yw brenin y casglwyr.

Pan ddeuthum i Fangor i fyw, ychydig dros hanner can mlynedd yn ôl, a chael fy ngwahodd i fynd yn aelod o bwyllgor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, cyfarfûm â dwy wraig a gasglodd lawer o'r caneuon gwerin, sef Mrs Grace Gwynedd Davies a Lady Herbert Lewis, aelod seneddol dros sir Fflint, ac wedyn dros y Brifysgol. Trwy ei egni a'i ddyfalbarhad, fe barodd i'r llywodraeth roi grantiau i Gymru er mwyn iddi gael ei Llyfrgell a'i Hamgueddfa Genedlaethol ei hun. Gwnaeth lawer iawn dros Gymru tra oedd yn y senedd, a hynny'n aml yn erbyn llawer o wrthwynebiad. Saesnes oedd Ruth Lewis, merch i'r aelod seneddol W.S. Caine, ac mi ddysgodd hi Gymraeg. Buont yn byw ym Mhlas Penucha, Caerwys, ac yn oedd ganddynt dŷ yn Llundain hefyd. Yr oeddent yn garedig iawn wrth Morfydd Llwyn Owen, y gyfansoddwraig ifanc a fu farw yn chwech ar hugain oed. Pan oedd Morfydd yn fyfyrwr yn yr Academi Frenhinol yn Llundain, yr oedd tŷ Syr John a Lady Herbert Lewis yn gartref oddi cartref iddi. Bu Ruth Lewis yn ddiwyd yn casglu alawon gwerin yn sir Fflint o gwmpas ei chartref, a'i dull o wneud hyn oedd mynd â ffonograff o gwmpas yr ardaloedd gwledig, a cheisio perswadio pobl i ganu caneuon gwerin i mewn i'r peiriant. Ond nid oedd yn gallu ysgrifennu'r caneuon, felly cafodd gymorth Morfydd Owen i wneud hyn, a Morfydd hefyd a fu'n gwneud llawer o drefniadau iddi pan gyhoeddodd ei chasgliadau.

I Fôn yn bennaf yr aeth Grace Gwynedd Davies i chwilio am alawon gwerin. Merch o Lerpwl oedd hi, a chafodd ei hyfforddi fel cantores ym Mharis. Brodor o Fôn oedd ei thad, a dyna pahan yr aeth hi'n ôl at ei gwreiddiau yn y sir honno i gasglu'r caneuon. Priododd Robert Gwynedd Davies o Gaernarfon — y gŵr a gyfieithodd *Y Bardd Cwsg* i'r Saesneg. Yr oedd Robert Gwynedd Davies yn gasglwr llawysgrifau, ac y mae amryw o'r rhain yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol ym Mangor. Arferai fynd o amgylch y wlad i ddarlithio ar alawon gwerin, ac yr oedd ei wraig yn mynd gydag ef i ganu'r caneuon. Buont cyn belled â Chanada a'r Unol Daleithiau yn darlithio ac yn poblogeiddio ein caneuon gwerin. Pan ddeuthum i adnabod Mrs Gwynedd Davies, yr oedd ei gŵr wedi marw, a hithau'n dal i fyw yng Ngraiianfryn, Llanwnda, yn ymyl Caernarfon. Yr oedd hi'n wraig groesawus iawn, a phleser bob amser oedd mynd yno, yn enwedig yn yr haf, pan oedd ei gardd nodedig yn llawn o flodau. Dyna'r ardd fwyaf lliwgar a welais erioed. Cyhoeddodd Grace Gwynedd Davies



dri chasgliad o alawon gwerin — dau ohonynt yn ymwneud â Môn. Hi hefyd a wnaeth y trefniadau, ond nid oedd hi'n gallu eu hysgrifennu. Anfonodd at yr Academi Frenhinol i ofyn a oedd ganddynt fyfyrwr o Gymro a allai ei chynorthwyo. Ac felly y daeth dyn ifanc o'r Academi ati i roi ei threfniadau ar bapur, tra oedd hi yn eu chwarae ar y piano. Y gŵr ifanc hwnnw oedd Mansel Thomas, a ddaeth yn bennaeth adran gerdd y B.B.C. yng Nghymru, yn ddiweddarach.

Yr oedd Grace Gwyneddon Davies a Ruth Lewis yn ddwy wraig gyfoethog, ac yn medru fforddio'r amser i fynd i gasglu alawon gwerin. Yr oedd ganddynt forynion i edrych ar ôl eu cartrefi, a *chauffeur* i'w cludo i ba le bynnag yr oeddent am fynd. Yr oeddwn i'n meddwl eu bod yn cael bywydau braf iawn, a hynod o ddiddorol, er mae'n rhaid dweud nad peth hawdd oedd casglu alawon gwerin, bob amser. Yn aml iawn, yr oedd pobl yn gyndyn i ganu'r alawon — rhai yn rhy swil, eraill yn ofni canu i mewn i'r peiriant dieithr, eraill â chywilydd o'r hen ganeuon, ac yn gwrthod cyfaddef iddynt eu canu erioed. Bu raid i'r ddwy wraig yma fynd lawer gwaith i'r un tŷ weithiau cyn llwyddo i berswadio'r bobl i ganu, a bu raid iddynt wrth amynedd a dyfalbarhad. Buasai wedi bod yn haws o lawer pe baent yn gallu siarad Cymraeg â'r bobl, ond Saesneg a siaradai'r ddwy. Saesneg oedd iaith Dr Mary Davies hefyd, a Saesneg oedd iaith pwyllgor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Erbyn hyn, y mae pethau wedi newid, a Chymraeg yw iaith holl weithgareddau'r Gymdeithas.

SUMMARY

The above article is a précis of the talk given by Lady Parry, one of the Society's Vice-presidents, to the week-end school at Gregynog in 1989. In it she recalls in particular four folk-song collectors prominent in the Society in its early years. The singer Mary Davies (1855-1930) was an endearing character who had in her youth an exceptionally beautiful voice. John Lloyd Williams (1854-1945), in addition to being the acknowledged king of folk-song collectors, was a distinguished botanist who made important discoveries concerning the reproduction of seaweed. Lady Herbert Lewis (1872-1946) of Penucha, near Caerwys in Flintshire, collected extensively in her own county and published anthologies of folk-songs with accompaniments by her friend, the young composer Morfydd Owen. The singer and collector Grace Gwyneddon Davies (1879-1944) also published books of folk-songs and with her husband Robert travelled as far afield as the U.S.A. and Canada to lecture on Welsh songs.

‘PWT AR FRYS’ NEU ‘FFARWÊL Y CRYTHOR’

Bethan Miles

Mae’n amhosibl i ni heddiw wybod yn union pa fath o sain a gynhyrchid ar y crwth yn nyddiau ei anterth yn yr Oesoedd Canol. O’r hyn y gwn i am gyweiriad y crwth, a thrwy arbrofi fy hun ar yr offeryn, gellir dweud bod iddo swm llawn a chroyw. Fel gyda gitâr 12-tant tiwnir y crwth mewn parau o wythfedi. Gwelwn dystiolaeth o hyn mewn cerdd i ofyn crwth dros Edward Grythor o Iâl at Robert Rheinallt — a oedd yn gerddor i’r Brenin Harri VIII:

Crasdant, cowirdant fal cynt
A’u bwrwnau’n bêr ’danynt;
Llyma le’n llaw Mileas
Lle i’r fawd yw’r llorf a’i was.

Ond fel gydag unrhyw offeryn, dibynna ansawdd y gerddoriaeth ar ddawn y sawl sy’n ei ganu. Er bod canmol ar grythor i’w weld ym marddoniaeth Gymraeg y mae cyfran helaeth o’r cerddi yn dwyn anfri ar ein hannwyl grythor — ond mewn modd cellweirus! Yn sicr ’roedd nifer ohonynt fel Rhys Grythor a Wil Hwysgin yn gymeriadau smala ac yn cael eu gwneud yn gyff gwawd; cadwyd nifer fawr o storïau a cherddi amdanynt.

Mae’n bosibl bod canu englynion ysgafn, yn gysylltiedig â stori, yn rhan o weithgaredd y crythor. Heb fynd i fanylu fan hyn (gan y bwriadaf ymhelaethu’n fwy difrifol ar hyn eto) mae’n bosibl mai rhan o swyddogaeth crythor fyddai ‘perfformio’ hen chwedlau fel y Pedair Cainc lle byddid yn ‘datgan’ y rhyddiaeth ac yn canu am yn ail. Ceir nifer o alawon yn dwyn teitlau chwedlau fel ‘yr ychen bannog’, ‘Caniad y twrch trwyth’ ayb ac ymddengys i’r arfer barhau i mewn i’r ddeunawfed ganrif pryd y sonnir bod y crythor olaf yng ngwaelod Ceredigion yn enwog am ei storïau, ‘a’r ach bennaf yr ychen bannog.’ Efallai bod *repertoire* rhai crythorion yn cynnwys hanesion smala a’u bod yn rhyw fath o *stand up comedians* (neu’n amlach na heb yn ôl y disgrifiadau o rai ohonynt, yn methu â sefyll!) tebyg i Gari Williams neu Bontshân yr oes o’r blaen.

Hoffwn gyflwyno i’ch clustiau cerddgar gyfres o englynion a luniwyd am y crythor Edward Sirc yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Mewn cerddi am grythorion sydd wedi pasio eu gradd 8 yn Academi Frenhinol Caerwys ceir ansoddeiriau fel ‘tyner’, ‘croyw’ a ‘phêr’ i ddisgrifio’u dawn ond teimlaf fod yr anffodus Edward wedi methu’n rhacs ac mai disgrifiad caboledig o ansawdd y gerddoriaeth a lifai o’i grwth a geir yma.

Cyfarwyddiadau i'r darllenwr: Dylid darllen y gerdd hon yn uchel a chyflym er mwyn llawn werthfawrogi'r sain.

I Edward Sirc

Sirc feddwisiad grwydrad garwrdran — gna!

Geg rhonco gwag rhincian,

Sirc rog, Sirc greithiog grythan,

Sirc flerwr, glerwr gwlân.

Sirc leidryn swrfin, Sirc serfyll, — sar{?ff}

Ddwys yfed ddi-sefyll,

Sirc wylliad, Sirc gyw ellyll,

Sirc fagabownd, hel hownd hyll.

Sirc grythan, baban, bwbach — gwleddai

Sirc fawai, Sirc fiach,

Sirc gerlyn, mentyn mantach,

Sirc radd groch, Sirc ruddie gwrach.

Sirc grach wegil, {Sirc} groch igian — meddwdod

Dduhergod ddihirgan,

Sirc â gwep cath yn llepian,

Sirc furia brwnt, Sirc fêr brân.

Sirc siêd, Sirc surffed i'r sawl — â'i hedwyn,

Sirc hudawl uffernawl,

Sirc wên hen, Sirc gynhwynawl,

Sirc air du, Sirc o ryw diawl.

Sirc wasgod fferdod, Sirc ffordel, — rhoddiad

Llesg waeddiad, llais Gwyddel,

Sirc wythran, sur y cythrel

Sirc sgoriwr, Sirc sgwriwr siêl.

Sirc sen, grasaren, surion — 'i chwed{lau},

Gis dannau gas dynion;

Os cras yw'r crwth, dagrwrth dôn,

Crasach yw'r geirie creision.

Gwaedd porchell, dichell mewn gwth — o oedran,
Mynn edrych pob coegfwth,
Gŵr â'i odlwag rhuadlwth,
Gwawch greg gyda gwich 'i grwth.

Cerddor min gogor, mynn ymgigo — fyth
Yn y fan lle'i delo,
Crafu rhinc yn ôl drincio,
Cân ffeind i yrru cŵn i ffo!

Coblyn carn dulun cornelau — ceirpiog,
Carp cuchiog 'i aelïau,
A phob llarp yn 'i garpiaïau,
Annedd oll ŷnt nedd a llau.

Tyngaf, o gwelaf y gwas — celwyddog,
Y celwyddyn atgas,
Y paraf, wyneb byras,
I Edw Sirc udo siâs.

Mae'r glwth diwin-rhwth wedi i anrheithio — oll
Ni ellir cerdd iddo,
Nid wy' chwit er 'i dditio,
Wepan faw, mi a'i pwnia fo.

[?Morys] Powel.

SUMMARY

A very brief account of the evidence held in Welsh poetry regarding the sound of the crwth (similar to a fiddle). Most of the references to players of the crwth, however, bring them into disrepute — albeit in a sunny mood. It seems that their repertoire included jokes, stories and songs, and were similar to the stand-up comedians of today. There follows a series of englynion written about a certain Edward Sirc who was not a very proficient player.

CÂN NEWYDD BARD D Y GWAGEDD

Hefin Jones

Cân newydd, sef ymddiddan rhwng mab a merch ieuanc yng nghylch priodi.

Tôn: *First of May*

Dydd da fo i ti fy seren olau,
Lliw gwyn rhosyn yr haf;
Tydi yw'r gywrain ferch a garaf,
Lliw gwyn rhosyn yr haf.
Wel cau dy geg yr hen oferddyn
Casa' fu erioed ar wyneb y tir,
Mi groga fy hun cyn dof i'th ganlyn,
Mewn gair, dyna i ti'r gwir.

'Rwyt i'm golwg meinir addfwyn,
Lliw gwyn &c,
Yn well na miloedd o aur melyn,
Lliw gwyn &c,
'Rwyt tithau'n wir i'm golwg innau,
Casa' &c,
'Run fath â Siôn yr hen sweep simnau,
Yr hen geg, &c.

Mae dy lais di meinir addfwyn...
Yn fy nghlust fel tannau telyn...
'Rwyf fi'n dy glywed dithau'n lleisio...
'Run fath â nadau cŵn yn udo...

Mae dy gusan di fanwlyd...
'Run fath â diliau mêl bob munud...
Ac felly mae'th gusan dithau...
Yn ail i gamomeil i minnau...

'Rwyt ti'n wir, fy meinir amlwg...
Fel rhyw angyles yn fy ngolwg...
'Rwyt tithau'n wir i'm golwg innau...
Yr un fath â bwgan, mi debygaf...

Wel pryd y cawn ni'n dau briodi?...
Mi wn dy fod yn ffyddlon i mi...
Pan weloch chdi gath yn berwi pwdin...
A buwch Siôn Pirs yn cyweirio menyn...

Mi'th gadwaf di fel gwraig marsiandwr...
Cei gennyf seigiau braf a siwgr...
Wel rhaid bod cyflog braf yn rhywle...
Am feddwi'r nos neu gysgu'r bore...

'Rwy'n cael y gair o fod yn weithiwr...
Fel cyffredin ar dir ffarmwr...
'Rwy'n siŵr mai'r gwaith a fedri di orau...
Yw llowcio llaeth a bochio bara...

Os wyt ti'n mynd i'm troi i heibio...
Dyro gusan cyn ffarwelio...
Wel waeth i mi ddweud y gwir na pheidio,
Mwyna' fu &c,
Ce'st ddau o'r blaen, cei bymtheg eto,
Mewn gair &c.

Wel moes i mi wybod, gwen lliw'r manod,
Lliw gwyn &c,
Pam o'et ti gynt mor ddrwg dy dafod?
Lliw gwyn &c,
I ddangos moddau merched meddal,
Mwyna' fu &c,
Yn gweiddi paid ac eto'm gadael,
Yr hen geg &c.

F'anwylyd bach, a wnei di fentro,
Lliw gwyn &c,
Yr orau fu ar dir yn tario,
Lliw gwyn &c,
Os medra i gyrraedd fy hen gariad,
Y mwyna' &c,
Amen, Amen, a dyna 'nymuniad;
Mewn gair &c.

Yr uchod yw'r fersiwn a welir gan amlaf yn y gwahanol gasgliadau,
ond ceir y penillion ychwanegol hyn mewn un fersiwn:

Yr wyt ti'n goeglyd wrth dy gariad...
Pa sut yr wyt ti mor ddideimlad?...
Wel llygad y gath a dannedd y mwnci...
Ni fuost erioed yn gariad imi...

'Rwyf yn gofyn wnei di faddau...
I mi am ddweud rhyw ofer eiriau...
O na, mae 'nawr yn rhy ddiweddar...
Ni chymrai mohonot byth yn gymar...

Os darfu imi ddweud rhyw eiriau anghall...
'Roedd fy meddwl i ffordd arall...
O taw, 'does gennynt fawr o foddion...
Mi fynnaf ferch ag arian ddigon...

Llwydo mae fy mochau cochion...
'Rwyf yn awr ar dorri 'nghalon...
Pe buasit ti heb roi drwg dy dafod...
Fe fuasem ni cyn hyn yn briod...

O paid â bod mor galon galed...
A'm gadael i yn sbort i'r merched...
Wel pam na buasit tithau'n cofio...
'Nôl codi pais bydd rhai yn piso...

Mae'n well i ni ein dau briodi...
Mewn da fwriad na difaru...
Ar ôl cyhoeddi y gostegion...
Cawn ninnau'n dau briodi'n union...

Wele 'nawr fe ddaeth y diwrnod,
Fab mwyn, hardda' fu erioed,
Wele ni ein dau yn briod,
Fab mwyn, hardda' fu erioed.
Cawn fyned heno i'r gwely gwiwlan,
Y fwyna' fu erioed ar wyneb y tir,
Ond peidio gyrru'r gwaelod allan
Mewn gair dyna i ti'r gwir.

Awdur y geiriau uchod yw Richard Williams, Dic Dywyll (Bardd y Gwagedd) ac ef oedd un o faledwyr gorau Cymru yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi dweud hynny, y mae hanes ei fywyd yn dal i fod yn niwlog iawn, ac yr ydym yn gorfod dibynnu ar bytiau byr amdano, yn enwedig yng nghylchgronau'r ganrif ddiwethaf. Y mae'n debyg mai ym mhlwyf Llechgynfarwy ym Môn y cafodd ei eni a hynny tua dechrau'r ganrif. Gwyddom ei fod wedi byw am gyfnod ym Merthyr Tudful, ond mai yn Lerpwl y bu farw, ac yno y'i claddwyd rywbryd cyn 1860.

Yr oedd Dic, fel y baledwyr eraill i gyd, yn ŵr hynod iawn, yn dibynnu ar ganu i'w gynnal, ac oherwydd hynny yn crwydro Cymru benbaladr. Mynychai'r baledwyr ffair a marchnad, dienyddiad ac eisteddfod yn y gobaith o werthu copïau o'u gwaith. Y mae dros naw deg o faledi Dic ar gael i'w gweld yn y gwahanol gasgliadau o'u gwaith argraffedig o'r caneuon, a cheir nifer mewn llawysgrif hefyd. Fel y baledwyr gorau eraill, nid oedd Dic Dywyll yn cyfyngu'i ganu i unrhyw gategori arbennig, a cheir ganddo nifer o faledi gwleidyddol eu naws. Yn wir, ef oedd un o'r ychydig a fentrodd argraffu cân ar helyntion tref Merthyr yn 1831, a chyfansoddodd faled arall yn sôn am ddiwrnod dienyddio Dic Penderyn, am ei ran yn y terfysg. Credir i'w faled ar y bwriad o godi tloty ym Merthyr greu cymaint o gynnwrf ymysg y trigolion, fel y gorfu i'r awdurdodau ailfeddwl, ac ni welwyd y wyrchwys yno am dros ugain mlynedd wedi cyfansoddi'r gân.

Y mae nifer o ddisgrifiadau ar glawr am y ffordd yr ymddangasai Dic ar ei deithiau. Honna rhai oedd yn ei gofio ei fod yn dlawd a thruenus yr olwg, ond mae'n debyg nad oedd ei amgylchiadau felly drwy gydol yr amser. Yr oedd yn rhaid i'r baledwr daro deuddeg gyda'i gynulleidfa o'r cychwyn cyntaf, felly gwisgent yn rhyfedd, ac roedd eu dull o ganu yn unigryw hefyd. Hawliai Dic sylw ei gynulleidfa yn syth am ei fod yn gantor mor garismatig, a cheir llawer yn sôn bod mynd mawr ar ei faledi. Er iddo gyfansoddi baledi ar bob testun, mae'n debyg mai fel canwr baledi serch a digri y'i cofir yn bennaf heddiw, ac oherwydd hynny credir mai'r ieuenctid oedd ei *fans* pennaf.

"Lliw gwyn rhosyn yr haf" yw un o'r baledi enwocaf a gyfansoddodd Dic, ac mae'n braf meddwl bod cynifer o bobl yn gwybod amdani tua chanrif a hanner ar ôl ei chyfansoddi. Serch hynny, dim ond llond dwrn o fersiynau o'r faled sydd i'w gweld yn y casgliadau. Y mae'n weddol sicr ei bod yn boblogaidd iawn yng ngogledd Cymru, a honnodd Dr Alfred Daniell bod y gân i'w chlywed ar hyd strydoedd Caernarfon yn yr 1830au. Wedi dweud hynny, unwaith yn unig y gwelais enw argraffydd yn gysylltiedig â'r gân a gŵr o dde Cymru oedd hwnnw. Gweithiai Thomas

Howells yn Glebeland, ardal boblogaidd ym Merthyr yn y ganrif ddiwethaf, ond ni ddechreuodd ei fusnes ef tan ar ôl i Dic symud i Lerpwl. Felly, y mae hyn yn rhyw fath o brawf bod y gân yn boblogaidd yn y de er nad oedd yr awdur yn byw yno erbyn hynny. Gan fod cyn lleied o fersiynau ar glawr y mae'n debyg mai'r traddodiad llafar a fu'n fwyaf cyfrifol am ei phoblogrwydd.

Y mae'n ddiddorol sylwi mai ar y dôn "*First of May*" yr honnir i Dic ganu'r faled, a dyna'r dôn a roir ar ben y copïau mewn print, ond yn Rhan I, Cyfrol I o'r *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin* yn 1909 rhoddwyd enw'r dôn fel "Lliw gwyn rhosyn yr haf" (gweler y fersiynau isod). Nid oes copi o'r dôn "*First of May*" yn y rhan fwyaf o'r casgliadau mawr o ganeuon gwerin a dawns o Loegr a hyd yn oed lle'i cofnodwyd nid yw'n ymddangos bod unrhyw berthynas rhyngddi â'r ddau fersiwn o "Lliw gwyn &c" a welir yn 1909. Y mae'r fersiynau hynny yn seiliedig ar yr hyn a glywid yn cael ei ganu gan ddau berson hollol wahanol; yr un cyntaf gan ŵr o'r enw William Edwards o Drawsfinydd, a chanwyd yr ail gan fam Dr Daniell, a chyfaddefodd ef mai gorchwyl anodd oedd cofnodi'r fersiwn hwnnw. Yn ddiddorol iawn mae'r ddau fersiwn wedi'u canu mewn gwahanol gyweirnodau, y cyntaf yn E lleddf a'r ail yn G lleddf. Golyga hyn, wrth gwrs, bod naws weddol drist i'r dôn. Y mae amser y curiadau a nodir hefyd yn amrywio, 6:8 yn un a 3:8 yn y llall, ond y mae'r ddau amser yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd. Ceir amrywiadau yn y melodi hefyd, ond eto maent yn ddigon tebyg yn y bôn ac yn ddigon syml i'w cofio ar unwaith.

Cytunir, yn gyffredinol, mai cân i ddawnsio iddi oedd hon yn wreiddiol, ond ni wyddys i sicrwydd o ba ran o'r byd y tarddodd. Cred rhai ei bod yn bosib iddi fod wedi dod o wlad Denmarc, gan fod llawer o ganeuon tebyg i'w canfod yno. Ar y llaw arall, cred eraill mai tarddiad Celtaidd sydd iddi gan y gellir ei chymharu â llawer o donau yn llyfr Patrick Macdonald *Highland Airs* a bod y melodi yn debyg i nifer o ganeuon Celtaidd eraill. Credir bod y gân yn perthyn yn agos iawn i ddawns wlad o'r enw "*The Mallard*" a welir yng nghasgliad Baring Gould ac os nad amrywiad o'r gân honno ydyw y mae'n bosib iddi gael ei chyfansoddi tua'r un adeg. Y mae'n ddiddorol bod fersiwn o "*First of May*" i'w weld yn yr un casgliad ond anodd yw profi bod y caneuon yn deillio o un gân wreiddiol.

Y mae'r elfen o ymddiddan a ddefnyddiwyd gan Dic yn nodweddiadol iawn ohono, yn enwedig yn ei faledi serch. Mae'n debyg y byddai'r gynulleidfa wrth ei bodd yn ei glywed yn dynwared lleisiau'r bachgen a'r ferch, ac yn chwerthin yn braf ar ei ystumiau wrth ganu. Mewn erthygl yn *Cymru* 1897 ceir gŵr o'r enw Gruffydd Risiart yn cambriodoli'r llinellau



a ddyfynnodd, gan honni mai o gân yr “Hwsmon Hunanol” gan Ywain Meirion y daethont, ac nid o “Ymddiddan mab a merch ieuanc ynghylch priodi”. Serch hynny, y mae ef yn cyfleu’r effaith a gâi’r canu ar y dorf.

A phan fyddai Owain yn dynwared y geiriau, “Yr Hen geg”, gwnelai sain ac ystumiau mor anarlunadwy ddigrifol nes y byddai y llanciau oedd yn gwrando yn colli pob llywodraeth ar eu peiriannau chwerthin.

Y mae’r cyferbyniad rhwng canu rhamantus, llenyddol y bachgen a chanu ffyrnig ac aflednais y ferch yn drawiadol iawn, ond wedi iddi ddangos nad oedd hi’n un o’r ‘merched meddal’ y mae ei siarad yn tyneru ac yn y diwedd ceir y ddau yn mynd i briodi. Y mae’r gân yn cynnwys nifer o fformiwlâu y storïau canu, er enghraifft y cariad unochrog, casineb un tuag at y llall a diwedd hapus a gadwai’r gynulleidfa hwythau’n hapus. Defnyddiodd Dic lawer o gymariaethau a throsiadau yn y faled; y bachgen yn cymharu’r ferch â’r lliwiau gwyn a melyn ym mynd natur a’r byd ysbrydol i gyfleu ei phurdeb, techneg a welir yn fynych iawn mewn barddoniaeth Gymraeg, ac yna’r ferch yn mynd i’r eithaf i’w ddilorni ef. Ceir y ddau gymeriad yn defnyddio gormodiaith yn eu siarad a gwelir hynny yn gyffredin hefyd yn ein barddoniaeth o bob math.

Y mae’n weddol bendant, felly, bod y gân hon yn un o ffefrynau’r werin bobl ers iddi gael ei chyfansoddi, a’i bod yn gyfarwydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Y mae amrywiadau arni’n naturiol gan mai ar lafar yr oedd yn boblogaidd ac yn aml gwelir cân yn newid ychydig o dan yr amgylchiadau hynny. Dyma un o ganeuon gorau Dic Dywyll yn fy marn i — gobeithio eich bod yn cytuno.

Dyma’r ddau fersiwn a gofnodwyd yn 1909.

Doh G.

{ | 1_i : - : d | n : n | n : r : d | t_i : 1_i : - | 1_i : - : - | d : - : - | r : d : t_i : 1_i : - : - ||

O fanwryld pryd cawn ni brio di? Lliw gwyn Rhosyn yr Haf l
Gwn dy dof yn ei - ddo i - mi Lliw gwyn Rhosyn yr

{ 2nd time.

{ 1_i : - : n | m : fe : s | s : - : fe : n | m : - : fe : s | s : n | m : ba : se | l : - : l }

Haf. Pan we - li di’r gath yn b’y - ta pwldin, Y cas - af er - ioed ar

{ 1 : s : fe | n : - : n | l : - : n | n : - : n | n : r : d | t_i : 1_i : 1_i }

wy - neb y tir! A buwel Sion Pw yn cweir - io ‘mienyn, Yr

{ | 1_i : - : - | n : - : - | r : d : t_i : 1_i : - : - ||

hen geg l dy - na ti’r gwir.

Doh F. Ray = G.

{ :l: | r :— :n | f :— :l | s :— :f | n :r :d }

Oa wyb tin myn'd i'm troi i heib - io,
Wel dy - ro gu - san cyn ffar - wel - io,

{ | r :— :— | f :— :— | n :s :f | r :— :— ||

Lliw gwyn rho - syn yr haf l
Lliw gwyn rho - syn yr

{ 2nd time. | r :— :l | l :— :t | d[†] :t :d[†] | l :— :t }

haf. Wel waeth i'm ddweyd y gwir na

{ | d[†] :t :d[†] | l :t :d[†] | r[†] :— :r[†] | d[†] :t :d[†] }

pheid - io, Y mwy - naf er - ioed ar wy - neb y

{ | l :— :l | r[†] :— :l | l :s :f | s :— :f }

tirl Cest ddwy o'r blaen, cei bym - theg

{ | n :r :d | r :— :— | l :— :l | n :s :f | r :— :— ||

o - lo, Mewn gair a dy - na ti'r gwir.

SUMMARY

Richard Williams was one of Wales' best ballad composers during the first half of the nineteenth century. Born in Anglesey, he lived for a time in Merthyr Tudful, but died in Liverpool in 1860. 'Lliw gwyn rhosyn yr haf' is one of his best known ballads, and is a conversation between a young man and a young woman concerning marriage.

BALEDWYR ABERDÂR

Daniel Huws

Erbyn tridegau'r ganrif hon yr oedd bwrlwm y bywyd Cymraeg a nodwedddai Aberdâr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi tawelu. Ond o dan yr wyneb nid oedd y Gymraeg yn brin. A'r tebyg yw fod cnwd go dda o ganeuon a baledi Cymraeg yn dal ar gof trigolion y dref. Yn anffodus, nid oedd aelod o'r Gymdeithas Alawon Gwerin yno i'w feddi. Rhaid bod yn ddiolchgar felly i John Davies ('Pen Dâr') am achub tipyn o dystiolaeth am faledwyr Aberdâr a'u caneuon. Rhaid bod yn ddiolchgar hefyd i Mr J.F. Mear am achub y papurau hyn o eiddo Pen Dâr a'u rhoi i'r Llyfrgell Genedlaethol lle maent yn awr yn llawysgrif NLW 22712C.

Mewn erthygl a gyfrannodd Mr Mear i *Old Aberdare*, v (1988), tt. 1-53, ceir braslun da o John Davies, 'Pen Dâr' (1864-1940), yn gymeriad hoffus a chofnodydd bywyd Aberdâr, ac ailargreffir yno ddetholiad bychan o ysgrifau Pen Dâr ei hun. Sonia Pen Dâr am rai o hen faledwyr cyfnod ei ieuentid: Dai Tynewydd, Joe Enos, Tom Pheby, Tim Bach, William Theophilus, Shoni Tŷ Top a Tom Jones y Gwitwar. Tebyg fod rhai o'r baledi y cyfeirir atynt isod wedi dod o enau ambell un o'r baledwyr hyn.

Hwyrach na fyddai Pen Dâr wedi cofnodi'r baledi sydd gerbron oni bai iddo yn 1936 gael y syniad fod ganddo ddeunydd eitem radio. Ysgrifennodd at y B.B.C. a chafodd ateb gan Idris Lewis. Dyma fe'n manylu am ei syniad yn y llythyr a ddyfynnir nesaf:

Diolch i chwi am eich atebiad caredig. Yr wyf yn awr yn anfon i chwi rhestr o enwau y baledi sydd gan yr hen gyfeillion yma i'w canu.

Os penderfynwch roddi cyfle am audition, gellir dewis y rhai a fynnwch i gael eu canu. Dyma y rhestr —

1. Ffair y Waun
2. O Dyna Chi Wel Ta'n Wir
3. Y Ferch o Lan Taf
4. Iawn, Iawn, Hynod Iawn
5. Can Mlynedd i Nawr
6. Will Hopkyn y Bardd
7. Hiraeth y Cymro am ei Wlad
8. Cân Amser
9. Ble Bydda i'n Mhen Can Mlynedd
10. Fy Nghariad
11. Un Rhyfedd yw Shon wedi Meddwi
12. Lisa Dalysarn

Y mae tair o'r caneuon hyn, nid wyf wedi eu gweled erioed yn argraffedig: dysgais hwynt pan yn ifanc iawn wrth glywed yr hen faledwyr yn eu canu. Efallai eich bod chwi yn gwybod rhywbeth amdanynt. Y rhai hyn ydynt, rhif 8, 9 a 11.

Cewch yn amgauedig gopi yn y Solfa o'r tair cân, mor gywir ag y gallaf eu cofio. Cefais rhif 10 a 12 mewn hen lyfr caneuon a gyhoeddwyd yn 1845, cyflwynedig i Gymreigyddion Y Fenni.

Y mae yma dri canwr go dda, yr hynaf yn 75, ac un yn 50 a'r llall yn 58. Os ceir audition, gellir dewis y goreu.

Am y telynwr, Mr Tom Davies (Telynor Aman) y mae ef wedi bod yn gwasanaethu ar y Radio o'r blaen, gyda Mr John Devonald. Bu unwaith yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, rhai blynyddoedd yn ôl.

Y mae yn ddiddorol sylwi ar yr *embellishments*, a'r *slurring additions*, y mae yr hen ganwyr yma yn gosod yn y caneuon wrth eu canu; y maent yn gywrain dros ben. Credaf y byddwch wrth eich bodd yn eu clywed.


Amgaeodd Pen Dâr gyda'i lythyr ryw gynnig ar sgript ar gyfer y rhaglen radio. Ar wahân i Pen Dâr ei hun a Tom Davies, y tri chanwr y disgwyliid iddynt gymryd rhan oedd James Hancock (a oedd i ganu *Can Mlynedd i Nawr a Wil Hopcin y Bardd*), Lawrence Walters (a ganai *Ffair y Waun a Lisa Dal-y-sarn*) a Morgan Richards (a ganai *Amser ac Un rhyfedd yw Shon wedi meddwi*). Tebyg mai dyma'r tri a grybwyllir yn y llythyr. Dywedir wrth gyflwyno James Hancock 'Nawr ta, am yr hen faledwr Hancock, chi yw'r hena, gewch chi i ddechrau'.

Nid yw'n amlwg a fu i Pen Dâr gofnodi pob un o'r baledi a enwodd yn ei lythyr. Mae'r papurau a achubwyd yn cynnwys geiriau (rhai penillion os nad y cyfan) ynghyd â nodiant sol-ffa ar gyfer 1, 2, 8, 9, 10, 11 a 12 yn y rhestr. Isod fe wneir ychydig sylwadau ar y deuddeg, gan gyfeirio at unrhyw wybodaeth ychwanegol a gynnigir gan Pen Dâr. Cyn gwneud hynny priodol fyddai crybwyll bod y casgliad bychan hwn o bapurau Pen Dâr hefyd yn cynnwys geiriau a nodiant cerddorol rhyw ychydig o ganeuon eraill, heb sôn yn benodol eu bod yn faledi a glywid yn Aberdâr. Mae'r rhain yn cynnwys pennill bob un ynghyd â'r alaw ar gyfer *Hoff Annie Deg o'r Glyn a Ffarwel i Mari fy Mam*, a phum pennill *Gwen Risolfa*, heb yr alaw, cerdd rywiog y mae ynddi lawer o'r un deunydd â *Trwy'r drysni a'r anialwch*.

Ffair y Waun.

Mae Pen Dâr yn nodi mai 'Grawerth' oedd piau'r geiriau: 'Cyfansoddwyd y geiriau tua 1830 a bu llawer o ganu ar y gân'. Bardd o lowr o Ferthyr Tudful oedd William Davies ('Grawerth'). Bu farw'n ifanc yn 1836. Casglwyd ei waith yn *Telyn Aur Glan Taf* (Merthyr Tudful, 1838) a'i ailargraffu yn 1875. Canodd ar y mesurau caeth a llawer hefyd ar fesurau'r baledi. Digwydd *Ffair y Waun* ar tt. 106-8 yn yr ail argraffiad o'i waith (ni welais y cyntaf), i'w chanu ar *Difyrrwch Meirionydd*. Dyma'r alaw a gofnodwyd gan Pen Dâr:

FFAIR Y WAUN



Rhyw brynhawn hyfryd iawn ymaith 'rawn tua thref y Waun i edrych welswn neu
glywswn dan y nef y farchnad oedd megis bloedd oll ar goedd yno'i gyd pob
un oedd wrth ei fasnach ni bu heb bulach byd mi glywn hen Shon y Ffermwr yn
mi welwn alamp o Gardi yn
codi i ddwndwr cawel yn gofyn saith a weigian yn farcen am y fusch a
gwerthu scadan coch gan waeddi Good fresh herrings a'r llall a Greens yn groch a
Jack o'r wlad yn cadw nad wrth golli'i gariad Gwen ac
Shon o'r glwyd a'i sanau llwyd a rhai fel rhwydau'n rhydd a
arall draw'n cogledu gan waeddi Rock again
Nelli fach Cydweli yn gwerthu llestri pridd

O dyna chi wel ta'n wir

Ceir deg o benillion i hon mewn llaw anghelyfdd heb fod yn eiddo Pen Dâr, ac enw'r mesur, *Tramp o Dre*. Mae'n un o faledi Dafydd Jones Llanybydder a gwelir hi'n aml wedi'i hargraffu ar daflenni. Fersiwn ar *Tramp o Dre* yw'r alaw a gofnodir gan Pen Dâr a argreffir isod. Gellir ei chymharu â'r fersiynau yn CCAGC, ii, tt. 111-118, lle ceir hefyd fersiynau yn y raddfa fwyaf.

O DYNA CHI



Wrth radio ar ddiwrnod cyfarfod wnes â merch ac arni hi yn rhywfodd y
rhedodd fy holl serch gofynnais gawn i garu â'r feinwen glaerwen gu a'r
ateb roddodd hithau oedd dweud "O wel ta'n wir" O dyna chi wel ta'n wi a
ma'n nhw'n dweud y gwir mei arwydd air y merched bach yw dweud "O wel ta'n wir"

Y Ferch o Landaf

Gan na chadwyd ffurf Pen Dâr ar hon ni ellir ond cyfeirio at CCAGC, iv, tt. 25-6, lle argreffir un ffurf arni, yn alaw a geiriau, wedi'i chasglu ym Mhont-rhyd-y-fen. Mae'r geiriau i'w gweld yn argraffedig ar daflenni.

Iawn, iawn, hynod iawn

Tebyg mai baled boblogaidd Jac Glan-y-gors *Person Sir Aberteifi* oedd hon, neu, a rhoi teitl arall sy'n digwydd arni ar daflenni baledi, *Hanes am offeiriad pan oedd wedi meddwi*. 'Hynod iawn, iawn, iawn, hynod iawn' oedd ei chytgan. Diau iddi gael ei chanu ar yr alaw *Derry down*. A bwrw mai baled Jac Glan-y-gors ydoedd, dyma'r hynaf ymhlith y baledi a restrir gan Pen Dâr.

Cân can mlynedd

Hwyrach bod y fersiwn oedd yn gyfarwydd i Pen Dâr yn perthyn i hwnnw a gofnodwyd yn Llanddeiniol, gw. CCAGC, ii, tt. 123-4. Gwelir y geiriau ar daflenni printiedig.

Wil Hopcyn y bardd

Y tebyg yw mai *Bugeilio'r gwenith gwyn* oedd y gân a gynrychiolir gan y teitl hwn yn rhestr Pen Dâr. Wedi ei chyhoeddi yn *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* yn 1844 daeth y gân yn un o'r rhai mwyaf cyffredin ar daflenni baledi, dan amryw o deitlau, a hanes Wil Hopcyn a'r ferch o Gefn Ydfa weithiau'n rhagymadrodd i'r gerdd.

Hiraeth y Cymro am ei wlad

Mae ansicrwydd pa faled a ddynodir gan deitl Pen Dâr. Mae o leiaf dau ymgeisydd. Fe geir *Hiraeth Cymro am ei wlad* (weithiau â'r teitl *Fy nagrau'n lli*) sy'n faled un ar ddeg o benillion pedair llinell, mesur hir, yn dechrau 'Bachgenyn wyf o Gymru wiw'. Gweler er enghraifft gasgliad baledi'r Llyfrgell Genedlaethol, *Baledi a Cherddi*, iv, 59, a x, 45. Yna fe geir *Cerdd hiraeth y Cymro am ei wlad*, i'w chanu ar *Difyrrwch Gwŷr Harlech*, yn dechrau 'Trwm ffarwelio â'm hen gyfeillion'. Gweler er enghraifft *Baledi a Cherddi* vii, 54, viii, 27 a xi, 1. Argraffwyd yr enghraifft olaf yn Aberdâr. Hwyrach bod hyn yn cryfhau achos yr ail ymgeisydd.

Cân Amser

Cofnodir pedwar pennill gan Pen Dâr. Gwelir y gerdd gyflawn, cerdd foesol ei naws, yn ddeg o benillion o waith David Williams ('Alaw Coch') yn *Gwaith Barddonol Alaw Coch* (Caerdydd, 1903), tt. 5-7. Dyma a ddywed Pen Dâr amdani: 'Cyfansoddwyd hi tua 1850, ac yr oedd yn boblogaidd

yn eisteddfodau y Carw Coch, Aberdar, yn y cyfnod hwnnw. Cafodd ei argraffu yn bamffledyn baled a chanwyd a gwerthwyd canoedd o gopiau ar hyd strydoedd Aberdar, Merthyr a'r Rhondda'. Noda hefyd 'Ysgrifenydd hon o'r cof, fel y clywais ei chanu tua thrigain a phump o flynyddoedd yn ôl. Nid wyf wedi gweld na chlywed erioed fod yr alaw yn argraffedig'. Fersiwn ydyw ar *Bryniau Iwerddon*.

Ble bydda'i mhen can mlynedd

Baled eang ei chylchrediad ar daflenni, o waith William Morgan ('Gwilym Gellideg'). Ond dywed Pen Dâr am y geiriau a gofnododd ef eu bod 'y cwbl oddiar y cof'. Fersiwn ar yr alaw *Lazarus* sydd gan Pen Dâr. Fersiwn tebyg ar yr alaw a gofnodwyd i'r un faled yn Aberdâr tua 1883, gw. *Canu Gwerin*, vii, t. 47, ac ym Môn ar ddechrau'r ganrif hon, gw. G. Gwynedd Davies *Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn* (Wrecsam, [1924]), t. 18.

Fy nghariad

Tri phennill a gofnodir gan Pen Dâr, gan sylwi eu bod yn waith Telynog. Un o feirdd Aberdâr oedd Telynog (Thomas Evans, 1840-65). Cyhoeddwyd ei waith yn *Barddoniaeth Telynog* (Merthyr Tudful, 1866) a cheir y gerdd *Fy nghariad* ar tt. 166-7. Dangosir poblogrwydd ei gerddi gan y ffaith fod pump argraffiad o'r gyfrol, yr olaf yn 1927. Efe oedd awdur y faled nesaf, *Un rhyfedd yw Shon wedi meddwi* a hefyd y faled *Y fory Shon Crydd* y ceir ei geiriau ym mhapurau Pen Dâr (ff. 63-6) a *Cân y chwain* a grybwyllir ganddo (f.7). *Pant corlan yr ŵyn* yw'r alaw a gofnodir gan Pen Dâr ar gyfer *Fy nghariad*.

Lisa Dal-y-sarn

Gwyddai Pen Dâr am darddiad y gân hon o gyfrol John Thomas ('Ieuan Ddu'), *Y Caniedydd Cymreig/The Cambrian Minstrel* (Merthyr Tudful, 1845), tt. 172-3. Aeth yn gân boblogaidd ar lafar gwlad mewn rhai mannau, gw. *Forty Welsh Traditional Tunes* (trefn. David de Lloyd, Llundain, 1929), t. 81.

Un rhyfedd yw Shon wedi meddwi

'Un o ganeuon mwyaf poblogaidd y bardd Telynog' yn ôl Pen Dâr. Cofnoda bum pennill. Mae wyth i'w gweld yn *Barddoniaeth Telynog*, tt. 152-4. 'A yw y dôn yn argraffedig?' yw cwestiwn Pen Dâr. Dyma hi:

UN RHYFEDD



Aeth Shon ryw ddiwarnod yn llaw hoff a'i dad i'r pentref i brynu te-
 Ac fel roedd'n arferol gan bobl y llad Colwasant mewn amryw da-
 ganau
 farnau ei dad a'i cyfodai yn lïon ar ei lin ac yntau am ddiod yn
 gwaeddi a dwedai mhen 'chydig "Fy nhad rwyf fi'n ddyn" Un
 rhyfedd yw Shon weai meddai

SUMMARY

An article which presents some of the evidence which survives in the papers of John Davies ('Pen Dâr', 1864-1940) about the Welsh ballads which survived among old singers in Aberdare around 1936. They are all ballads which survive in printed ballad-sheets of the nineteenth century.

CYHOEDDIADAU

Canu'r Cymry

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75



Canu'r Cymru II

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75



Caneuon Gwerin i Blant

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.50



Lleisiau'r Werin

gol. Rhidian Griffiths £1.50



Lleisiau'r Werin 2

gol. Rhidian Griffiths £2.50



Lleisiau'r Werin 3

gol. Rhidian Griffiths £2.75

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ddeg rhifyn ar hugain o'i Chylchgrawn, gan gynnwys ymron 600 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau, trafodaethau a chanu.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £4 i oedolion, £6 i wŷr a gwragedd ynghyd, a £1 i blant sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas. Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw: Mr Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: (0970) 828683.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research work. By today, over thirty numbers of its Journal have appeared, including almost 600 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures, discussions and song.

Annual subscription is £4 for adults, £6 for husbands and wives jointly and £1 for children, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society. Our Membership Secretary is: Mr Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Tel: (0970) 828683.



2330167

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.

